Cyngor Sir Penfro

# Asesiad Capasiti Tirwedd Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau



Adroddiad Terfynol

ar gyfer

Cyngor Sir Penfro

Tachwedd 2019


Rhif ffôn: 029 2236 2416

E-bost: sw@whiteconsultants.co.uk
Gwefan: www.whiteconsultants.co.uk

white CONSULTANTS

## CYNNWYS

1. Cyflwyniad ........ 2
RHAN 1 ........ 4
2. Dulliau ........ 5
3. Trosolwg o faterion a sensitifrwydd ........ 12
4. Crynodeb o'r argymhellion ar gyfer ACTau ........ 16
5. Asesiadau Sensitifrwydd a Chapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ........ 20
RHAN 2 ........ 21
6. Tueddiadau ........ 22
7. Cyd-destun polisi presennol ........ 26
8. Strategaeth ac ymagwedd bolisi argymelledig ........ 30
**ATODIADAU** ........ 34
Atodiad A Rhestr termau a thalfyriadau ........ 35
Atodiad B Canllawiau ........ 43
Atodiad C Diffiniad o Garafán ........ 46

## FFIGURAU

ar ôl tudalen

Ffigur 1 Ardal astudio a lleoliad safleoedd presennol a ganiateir ........ 3
Ffigur 2 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog ar raddfa fawr ........ 17
Ffigur 3 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog ar raddfa ganolig ........ 17
Ffigur 4 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog ar raddfa fach ........ 17
Ffigur 5 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa fawr ........ 17
Ffigur 6 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa ganolig ........ 17
Ffigur 7 Sensitifrwydd y dirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa fach ........ 17
Ffigur 8 Capasiti'r dirwedd ar gyfer datblygiad carafannau a gwersylla ........ 17

Mapiau unigol ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd

# 1. Cyflwyniad

1.1. Penodwyd White Consultants ym mis Gorffennaf 2019 gan Gyngor Sir Penfro (CSP) i gynnal astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd ar gyfer datblygiad carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau yn y sir y tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

1.2. Mae'r briff yn datgan mai cwmpas yr astudiaeth yw asesiad systematig o gapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACTau) presennol i ymdopi ag ystod o wahanol fathau o ddatblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau, gan gynnwys mathau o lety sy'n dod i'r amlwg. Mae'n gofyn am gyngor ar sail ACT ynglŷn â ph'un a all safleoedd presennol gael eu huwchraddio, eu hymestyn i gynyddu llety, eu hymestyn i wella golwg a/neu b'un a ellir ymdopi â safleoedd newydd. Dyma Ran 1 yr adroddiad hwn.

1.3. Mae'r briff hefyd yn gofyn am archwilio tueddiadau'r diwydiant ac amlinellu canllawiau strategol ar sut i wella golwg safleoedd. Yn seiliedig ar y rhain a'r canfyddiadau ACT, mae angen argymhellion ar newidiadau i strategaeth y cynllun datblygu ac ymagwedd at bolisi. Dyma Ran 2 yr adroddiad hwn.

1.4. Mae datblygiad ar raddfa fach iawn, fel carafannau unigol mewn cwrtil a materion yn ymwneud â thrwyddedu safleoedd, y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon.

1.5. Mae tirweddau Sir Benfro'n amrywio o ran eu cymeriad. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio diffinio graddau eu gallu i ymdopi â datblygiad o'r math hwn heb newid sylweddol i gymeriad nac effeithiau niweidiol. Mae tirweddau'r sir yn barhad di-dor o dirweddau a morweddau'r Parc Cenedlaethol sy'n rhychwantu mwyafrif helaeth yr arfordir, yn ogystal â'r Preseli a'r Daugleddau. Er bod rhaniad topograffaidd clir neu newid amlwg mewn cymeriad mewn rhai mannau, ceir rhyngwelededd yn aml, ac mae tirweddau'r sir yn ffurfio cefndir a chyd-destun pwysig i'r dirwedd arfordirol ddynodedig. Mae'r Parc Cenedlaethol yn denu llawer o ymwelwyr. Mae pobl sy'n teithio iddo yn mynd trwy'r sir.

1.6. Mae atynioldeb yr arfordir wedi arwain at ddatblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau sylweddol mewn mannau sydd, yn eu tro, wedi cael effaith niweidiol ar nodweddion y Parc Cenedlaethol y mae ymwelwyr eisiau eu mwynhau. Mae hefyd wedi arwain at ledaenu datblygiad i gefnwlad y sir, gan achosi clystyrau o ddatblygiadau hamdden mewn mannau, yn enwedig ar yr arfordir de-ddwyreiniol o amgylch Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Mae'r datblygiadau hyn wedi cefnogi economi'r ardal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

1.7. Mae gan CSP ddyletswydd statudol i ystyried effaith datblygiad o fewn ei ardal ar leoliad y Parc Cenedlaethol a'r effaith ar ei brif ddiben, sef gwarchod a gwella ei dirwedd. Mae'n rhaid i hyn gael ei gydbwyso ag ail ddiben y Parc Cenedlaethol, sef ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Mae gan dirweddau'r Sir sy'n llai sensitif, o bosibl, rôl i'w chwarae wrth ymdopi â datblygiad wedi'i leoli a'i ddylunio'n briodol sy'n cefnogi prif ddiben a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ar yr un pryd â chefnogi'r galw a'r economi leol. Mae'r astudiaeth hon yn ceisio cynorthwyo CSP i gyfeirio datblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau presennol, a newydd o bosibl, er mwyn cyflawni'r cydbwysedd hwn ar gyfer lleoliad y Parc Cenedlaethol ac ar gyfer tirweddau'r Sir yn eu rhinwedd eu hunain.

1.8. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro i esbonio'r dulliau a ddefnyddiwyd (2.0), rhoi trosolwg o'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth gynnal yr asesiad (3.0), crynhoi sensitifrwydd a chapasiti'r ACTau (4.0), ac yna asesu pob ACT yn ei thro (5.0).

1.9. Mae'r atodiadau'n ymdrin â rhestr termau (**Atodiad A**), canllawiau cyffredinol ar gyfer lleoli, dylunio a lliniaru **(Atodiad B)** a diffiniad o garafán **(Atodiad C).**

1.10. Dangosir yr ardal astudio gyda phatrwm datblygiadau gwersylla a charafannau presennol yn **Ffigur 1**.

# RHAN 1

# 2. Dulliau

2.1. Mae'r dull ar gyfer yr astudiaeth hon wedi adeiladu ar egwyddorion asesiad o sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i ymdopi â mathau amrywiol o ddatblygiadau heb effaith niweidiol. Dyma'r un dull, i bob pwrpas, a ddefnyddiwyd ar gyfer astudiaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a gynhaliwyd yn 2015, yr ystyrir ei fod yn gadarn. Bwriedir i'r ymagwedd hon sicrhau bod cysondeb rhwng yr asesiadau, sy'n hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd cyffiniol.

2.2. Mae'r termau a ddefnyddir yn yr astudiaeth i'w gweld yn y Rhestr Termau yn **Atodiad A**. Defnyddir termau'n bennaf a ddiffiniwyd gan y canllawiau cymeriad tirwedd a morwedd diweddaraf. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd, a LANDMAP.

2.3. Mae'r canllawiau a'r cyfeiriadau perthnasol a ystyriwyd gan yr astudiaeth hon fel a ganlyn, yn ôl trefn dyddiad:

- Papur Pwnc 6 Technegau a meini prawf ar gyfer barnu Capasiti a Sensitifrwydd, yr Asiantaeth Cefn Gwlad, Carys Swanwick a LUC, 2004.
- Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, Argraffiad 3, 2013 (GLVIA3).
- Asesiad cymeriad tirwedd drafft ar gyfer Cyngor Sir Penfro, 2019.
- System Wybodaeth LANDMAP, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, mis Mawrth 2012.
- Asesiad cymeriad tirwedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a fabwysiadwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) ym mis Mehefin 2011.
- Asesiad cymeriad morwedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a fabwysiadwyd fel SPG ym mis Rhagfyr 2013.
- Ymagwedd at asesu cymeriad tirwedd, Natural England, 2014.
- Ein hastudiaethau sensitifrwydd tirwedd a morwedd ein hunain yng Nghymru a Lloegr.
- Ymagwedd at asesu sensitifrwydd tirwedd, Natural England, 2019. (Daeth y canllawiau hyn i'r amlwg yn ystod y cyfnod astudio).

**Y broses a'r dulliau astudio**


2.4. Dangosir diagram llif o'r broses ym **Mlwch 1**. Mae'n dangos y gyfres o dasgau ac adroddiadau a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect cyfan.

2.5. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg a oedd yn dwyn ynghyd yr holl ddata tirwedd, morwedd a mapio cyfyngiadau perthnasol. Gan ddefnyddio'r cyd-destun hwn, ymwelodd aseswr tirwedd a morwedd profiadol â'r Sir gyda phensaer tirwedd arall a chanddo wybodaeth debyg am yr ardal yn gweithredu fel clust i wrando. Ymwelwyd â'r holl ardaloedd cymeriad tirwedd ac aseswyd pob un. Cynhaliwyd yr holl ymweliadau safle ym mis Awst er mwyn sicrhau yr ystyriwyd y tymor brig ar gyfer gwersylla tymhorol, ac y byddai pebyll a charafannau teithio yn fwyaf amlwg.

**Diffiniadau**

2.6. Ystyrir bod **sensitifrwydd** yn golygu'r graddau y gall ardal cymeriad tirwedd (ACT) ymdopi â newid o fath penodol ac o faint penodol heb effeithiau niweidiol ar ei chymeriad. Mae sensitifrwydd yn deillio o arfarniad o'i thueddiad cymeriad tirwedd (term a ddefnyddir yn gyffredin bellach ers asesiad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a'i thueddiad gweledol i ddatblygiad a'i werth cynhenid.

## Blwch 1: Crynodeb o'r broses astudio



2.7. Ystyrir bod **capasiti** yn golygu faint o newid y gall ACT ymdopi ag ef heb newidiadau niweidiol i gymeriad neu nodweddion allweddol neu ganlyniadau amhriodol i gyflawni polisïau tirwedd yn yr ardal. Mae'n ystyried datblygiad presennol yn yr ardal yn ogystal â'r sensitifrwydd ac yn ymdrin â mater effeithiau cronnol posibl ar lefel strategol. Felly, gellid ystyried bod ardal sydd â chryn dipyn o ddatblygiad presennol wedi cyrraedd ei chapasiti er y gallai ei nodweddion ymdopi â datblygiadau o fathau penodol. Mewn cyferbyniad, ni fyddai capasiti ar gyfer datblygiad mewn ardal sydd heb ddatblygiad presennol ac sydd â nodweddion tra sensitif.

**Diffiniad o Wahanol Fathau o Ddatblygiad**

2.8. Er mwyn cadarnhau sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i ymdopi â gwahanol fathau o ddatblygiadau gwersylla a charafannau, mae angen categoreiddio gwahanol fathau o ddatblygiadau. Ceir carafannau sefydlog, cabanau gwyliau, carafannau teithio, gwersylla ac unedau glampio fel podiau. Mae gan rai safleoedd gyfuniad o'r rhain. Gall gosodiad, dwysedd, lliw unedau a ffactorau eraill ddylanwadu ar effaith unrhyw safle penodol hefyd. Er bod nifer gynyddol o fathau gwahanol o lety, nid yw'n glir pa mor llwyddiannus y bydd y mathau newydd yn y tymor hir. Mae'r farchnad glampio'n symud yn gyflym ac mae rhai opsiynau creadigol yn cael eu cynnig i ddal dychymyg ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys carafannau sipsiwn, hen gerbydau gwersylla ac opsiynau mwy anarferol fel awyrennau disymud a chychod wyneb i waered. Felly, mae angen symleiddio'r asesiad gan ganolbwyntio ar egwyddorion sylfaenol p'un a yw safle/datblygiad yn barhaol drwy gydol y flwyddyn, h.y. yn sefydlog neu'n dymhorol, a'i faint/graddfa. Amlinellir y rhain isod. Ymdrinnir â'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar sut y dylai safle edrych a chyd-fynd â'r dirwedd yn y canllawiau cyffredinol yn **Atodiad B** a'r canllawiau ar gyfer pob ACT. Daeth y trothwyon maint o asesiad rhagarweiniol o sampl o wahanol ddatblygiadau yn nhirwedd Sir Benfro gan ystyried graddfa a phatrwm y dirwedd.

**Tabl 1 Diffiniad o Wahanol Fathau o Ddatblygiad**

| *Math o ddatblygiad a maint y safle* | *Diffiniad* |
|---|---|
| Sefydlog: mawr | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio strwythur caled ar safle mwy na 3Ha. |
| Sefydlog: canolig | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio strwythur caled ar safle >0.5Ha- 3Ha. |
| Sefydlog: bach | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio strwythur caled ar safle 0- 0.5Ha. |
| Tymhorol: mawr | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithio, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel iyrtau, tipis a phebyll saffari mwy na 3Ha. |
| Tymhorol: canolig | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithio, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel iyrtau, tipis a phebyll saffari >0.5Ha-3Ha. |
| Tymhorol: bach | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithio, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal fel iyrtau, tipis a phebyll saffari 0-0.5Ha. |

2.9. Mae rhai amodau pwysig yn gysylltiedig â'r diffiniadau uchod o ddatblygiadau:

- Yn gyffredinol, ystyrir bod carafannau teithio sy'n cael eu gadael ar y safle am fwyafrif tymor yr haf neu eu storio yn y fan a'r lle yn ystod y gaeaf yn gyfystyr â charafannau sefydlog o ran yr asesiad hwn o sensitifrwydd.
- Tybir bod opsiynau glampio strwythur meddal fel iyrtau, tipis a phebyll saffari yn dymhorol, gan eu bod yn cael eu symud ymaith o'r safle am fwyafrif y flwyddyn. Tybir hefyd eu bod yn annibynnol heb nodweddion caled fel deciau pren neu ffensys. Pan fydd yr olaf yn berthnasol, gellir ystyried yn gyffredinol eu bod yn gyfystyr â charafannau sefydlog.
- Ystyrir yn gyffredinol bod opsiynau glampio strwythur caled fel podiau gwersylla neu goetsis wedi'u trawsnewid yn gyfystyr â charafannau sefydlog, yn enwedig os ydynt yn barhaol, ar sylfeini, gyda decin, wedi'u cysylltu â thrydan neu ddŵr neu'n cynnwys plymwaith. Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd penodol lle mae'r strwythurau'n annibynnol ac yn cael eu symud ymaith o'r safle am fwyafrif y flwyddyn. Gellid ystyried y rhain yn eithriadau ar sail achosion unigol.

2.10. Mae'r meintiau safle uchod yn ganllaw cyffredinol i gapasiti gan fod amrywiaeth o effeithiau o wahanol fathau o ddatblygiadau ar wahanol safleoedd. Fe allai fod achosion lle mae datblygiadau llai yn cael mwy o effaith mewn rhai lleoliadau, a gallai safleoedd ychydig yn fwy gael llai o effaith mewn eraill. Bydd y seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygiad yn dylanwadu ar yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol hefyd. Byddai angen i effeithiau datblygiadau unigol gael eu harddangos ar sail achosion unigol.

**Deillio Sensitifrwydd**

2.11. Mae sensitifrwydd yn deillio o gyfuno tueddiad cymeriad tirwedd a thueddiad gweledol â gwerth. Amlinellir y ffactorau sy'n arwain at ddyfarniad ar bob un yn Nhablau 2 a 3. Yn seiliedig ar y rhain, diffinnir y lefelau sensitifrwydd fel:

| *Lefel* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Uchel** | Mae'r dirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored iawn i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn uchel neu'n uchel/canolig ac nid yw'r ardal cymeriad tirwedd yn gallu ymdopi â datblygiad o'r math perthnasol heb newid sylweddol i'w chymeriad neu effeithiau niweidiol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn isel iawn. |
| **Uchel/ canolig** | Mae'r dirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig i uchel a gall yr ardal cymeriad tirwedd ymdopi â datblygiad o'r math perthnasol mewn sefyllfaoedd cyfyngedig diffiniedig yn unig heb newid sylweddol i'w chymeriad neu effeithiau niweidiol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn isel. |
| **Canolig** | Mae'r dirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig/isel i uchel/canolig a/neu fe *allai'r* math o gymeriad tirwedd fod â rhywfaint o botensial i ymdopi â datblygiad o'r math perthnasol mewn rhai sefyllfaoedd heb newid sylweddol i'w chymeriad neu effeithiau niweidiol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn ganolraddol. |
| **Canolig / isel** | Mae'r dirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn gydnerth i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig/isel neu'n isel a gall yr ardal cymeriad tirwedd ymdopi â datblygiad o'r math perthnasol mewn llawer o sefyllfaoedd heb newid sylweddol i'w chymeriad neu effeithiau niweidiol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn uchel. |
| **Isel** | Mae'r dirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn gadarn neu wedi'u diraddio a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn isel a gall yr ardal cymeriad tirwedd ymdopi â datblygiad o'r math perthnasol heb newid sylweddol i'w chymeriad neu effeithiau niweidiol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn uchel iawn. |

### Tabl 2 Meini prawf tueddiad cymeriad tirwedd ar gyfer safleoedd carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau

Datblygwyd y meini prawf isod ar gyfer astudiaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Felly, mae rhai ohonynt yn berthnasol i elfennau sy'n bodoli yn PCAP yn unig, ac nid yn y sir (e.e. ynysoedd). Fodd bynnag, fe'u cedwir i gynnal cysondeb rhwng y ddwy astudiaeth.

| Prif feini prawf | Meini prawf / ffactorau penodol | Nodweddion sy'n llai sensitif | Nodweddion sy'n fwy sensitif |
|---|---|---|---|
| **FFISEGOL A DIWYLLIANNOL** | | | |
| **Graddau ac amgaead tirffurf** | Graddau tirffurf | Tirffurfiau ar raddfa fwy a allai ymdopi'n well â datblygiadau mwy o faint | Tirffurfiau ar raddfa lai wedi'u diffinio'n dda a allai gael eu hamharu gan ddatblygiad mwy o faint a allai fod angen torri a llenwi ar lethrau. Mae'n bosibl y gellid ymdopi'n well â datblygiadau llai o faint. |
| | Ffurf dopograffaidd | Gallai llwyfandiroedd neu dirweddau gwastad fod yn fwy addas ar gyfer datblygiadau mwy o faint ac fe allent fod yn llai gweladwy (yn dibynnu ar orchudd tir) | Tirfurffiau â newidiadau diffiniedig iawn mewn lefel, gan gynnwys clogwyni, llethrau arfordirol, tirweddau tonnog, tirffurf crwn, cefnennau cul, llethrau dyffryn a llechweddau serth a llawr dyffryn cul oherwydd gallai datblygiad fod yn weladwy oni bai ei fod ar raddfa fach ac yn dibynnu ar orchudd tir. |
| | Nenlinell | Ardaloedd/safleoedd heb nenlinell. | Nenlinellau, sy'n elfen bwysig ac amlwg yn y dirwedd/morwedd, e.e. fel cefndir i dir is neu ymylon arfordirol |
| | Perthynas â'r môr | Ardaloedd mewndirol o'r arfordir nad ydynt yn rhyngweladwy gydag ef. | Ymylon arfordirol ac ynysoedd sydd â pherthynas agos â'r môr |
| **Patrwm, graddfa ac amgaead gorchudd tir** | Graddfa gorchudd tir | Gorchudd tir/patrwm caeau ar raddfa fwy sy'n gallu ymdopi'n well â datblygiadau | Gorchudd tir/patrwm caeau ar raddfa lai nad yw'n gallu ymdopi â datblygiadau cystal os ydynt wedi'u lledaenu dros sawl cae |
| | Math/Patrwm | Planhigfeydd coedwigaeth, amaethyddiaeth syml ar raddfa fawr gyda phatrymau caeau unionlin | Tir amaeth ar batrwm afreolaidd neu gymhleth, sy'n aml yn fugeiliol gyda gwrychoedd a choed neu dir lled-naturiol lle y gallai graddfa a chymeriad unionlin datblygiadau mwy o faint ddominyddu'r patrwm neu wrthdaro ag ef |
| | Amgaead | Lle mae amgaead coed neu wrychoedd yn cyfyngu ar olygfeydd o ddatblygiadau yn y gaeaf yn ogystal ag yn yr haf. | Tirweddau/morweddau agored, heb amgaead lle y gallai datblygiadau fod yn weladwy iawn, gan gynnwys ardaloedd lle y ceir argloddiau ffin traddodiadol heb wrychoedd yn bennaf. |
| | Tirwedd hanesyddol/ Dyfnder amser | Tirweddau mwy diweddar fel tir sydd wedi'i adfer, tir amgaead hwyr lle y gallai datblygiadau achosi llai o aflonyddwch. | Tirweddau hŷn â dyfnder amser sylweddol a nodweddion cysylltiedig lle y gallai datblygiadau gael eu gweld fel elfennau ymwthiol ychwanegol, e.e. coetir hynafol, tir parc hanesyddol, henebion cofrestredig a'u lleoliad, tirweddau hanesyddol cofrestredig. |
| | Cymeriad Cynefin/ Ecolegol tirwedd | Tirweddau heb lawer o amrywiaeth ecolegol lle na fyddai datblygiad yn niweidio cynefinoedd, e.e. tir pori wedi'i wella. | Tirweddau ag amrywiaeth ecolegol lle y gallai datblygiad wrthdaro â'r cymeriad a niweidio cynefinoedd, fel safleoedd a gwarchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn lleol, tir pori parhaol a chynefinoedd lled-naturiol, e.e. twyni, coridorau afonydd a choetir. |
| **Math a phatrwm** | Patrwm anheddu | Ardaloedd trefol modern ar raddfa fawr lle y gallai datblygiadau mwy o faint | Ardaloedd heb eu datblygu, gan gynnwys yr ymyl arfordirol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **anheddu** | | gael eu gweld yng nghyd-destun graddfa a chymeriad | Pentrefi gwledig ac aneddiadau eraill wedi'u clystyru, yn enwedig â chreiddiau hanesyddol, lle y gallai datblygiadau canolig a mawr gystadlu â'r cymeriad a'r patrwm traddodiadol. |
| **Prif feini prawf** | **Meini prawf / ffactorau penodol** | **Nodweddion sy'n llai sensitif** | **Nodweddion sy'n fwy sensitif** |
| | Symud | Ffyrdd mawr prysur ac ardaloedd eraill o symudiadau mecanyddol sylweddol lle y gallai datblygiadau weddu'n fwy i'r cymeriad | Dim ffyrdd neu lonydd gwledig tawel yn unig lle y gallai datblygiadau dynnu'r sylw |
| **Nodweddion tirwedd/ ffoci/ tirnodau** | Nodweddion sensitif/ffoci | Tirweddau heb nodweddion sensitif lle y gallai datblygiadau amharu ar leoliadau | Tirweddau â thirnodau a nodweddion fel meindyrau a thyrau eglwysi, cestyll, ffoleddau, parciau a gerddi, adeiladau rhestredig a henebion amlwg lle y gallai datblygiadau gystadlu fel ffoci yn y dirwedd ac amharu ar leoliadau |
| **CANFYDDIADOL** | | | |
| **Sut mae'r dirwedd yn cael ei phrofi** | Golygfeydd | Presenoldeb golygfeydd amharol heb olygfeydd atyniadol | Presenoldeb golygfeydd atyniadol heb olygfeydd amharol lle y gallai datblygiadau amharu ar olygfeydd hoff neu darfu arnynt, megis o'r Llwybr Arfordirol, tuag at y Preseli a Mynydd Carningli, golygfannau allweddol, llwybrau teithiau cychod hamdden. |
| | Llonyddwch | Ardal lai llonydd lle y gallai cymeriad datblygiadau fod yn addas | Ardal lle y ceir mwy o lonyddwch ac ymdeimlad o bellenigrwydd lle y gallai datblygiadau, yn enwedig datblygiadau sefydlog, fod yn anghydnaws |
| **Cyd-destun** | Perthynas â thirweddau cyfagos a rhyngweledd â nhw | Gweledd cyfyngedig neu ddim gweledd gydag ardaloedd cymeriad morwedd a nodir yn rhannol gan ffin fewndirol yr ardal cymeriad morwedd o fewn yr ACT.<br><br>Tirwedd hunangynhwysol gyda pherthynas gyfyngedig ag ardaloedd cyfagos lle y gallai effeithiau datblygiadau fod yn gyfyngedig i'r ardal gymeriad, e.e. ardaloedd cymeriad mawr cyson â ffiniau cynnil ag ardaloedd cymeriad tirwedd cyfagos. | Rhyngweledd cryf ag ardal cymeriad morwedd a nodir yn rhannol gan ffin fewndirol yr ardal cymeriad morwedd o fewn yr ACT.<br><br>Cefndir cryf a ddarperir gan yr ardal hon neu ardal gyfagos lle mae effeithiau datblygiadau'n amlwg o dirffurf cyfagos neu'n cael eu pwysleisio ganddo, e.e. clogwyni, llethrau sgarp, llethrau dyffryn serth, bryniau gerllaw iseldiroedd neu ddŵr. |

**Tabl 3: Meini Prawf Gwerth**

| Byddai gwerth ACT yn cael ei ddeillio o'r ffactorau canlynol: |
|---|
| • Dynodiadau o fewn ac o amgylch y safle ar gyfer y dirwedd, e.e. cenedlaethol neu leol, treftadaeth ddiwylliannol, h.y. hanesyddol neu archaeolegol, neu ar gyfer bioamrywiaeth.<br>• Gwerthoedd agweddau LANDMAP<br>• Arwyddion o ddiddordeb neu ddefnydd lleol neu gymunedol, e.e. parciau gwledig, ardal a ddefnyddir ar gyfer hamdden lle mae'r dirwedd yn bwysig.<br>• Diwylliant – celf a llenyddiaeth, twristiaeth neu lenyddiaeth hyrwyddol gan gynnwys golygfannau allweddol<br>• Amcanion cadwraeth a/neu dirwedd lleol<br>• Asesiad o ansawdd golygfaol, llonyddwch, ymdeimlad o le/cymeriad, cyfanrwydd/cyflwr, prinder, cynrychioldeb a nodweddion canfyddiadol eraill. |

### Deillio capasiti'r dirwedd

2.12. Mae capasiti'n deillio o ystyried sensitifrwydd ACT i wahanol lefelau a mathau o ddatblygiad a'r datblygiadau carafannau a gwersylla presennol yn yr ardal honno, ac sy'n weladwy ohoni. Mae'r asesiad capasiti wedi'i rannu'n gapasiti ar gyfer safleoedd newydd, ymestyn safleoedd presennol gan gynyddu nifer yr unedau ac ymestyn safleoedd presennol er mwyn gwella'r hyn a gynigir heb gynyddu nifer yr unedau yn gyffredinol. Mae'r opsiwn olaf yn rhoi cyfle i wella 'cynnig' safle penodol. Amlinellir y capasiti i wella safleoedd, hefyd.

2.13. Os yw ACT o fewn lleoliad y Parc Cenedlaethol, mae'n rhaid i'w chapasiti i ymdopi â datblygiad ychwanegol gael ei ystyried hefyd mewn perthynas â'i effaith bosibl ar brif ddiben y Parc, sef gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Mewn ardaloedd lle mae datblygiad presennol yn groes i'r diben hwnnw, mae'n debygol y bydd y capasiti ar gyfer datblygiad ychwanegol yn gyfyngedig iawn ac y dylai'r datblygiad presennol gael ei wella er mwyn gwella'r ardal.

2.14. Mae'r diffiniadau ar gyfer capasiti fel a ganlyn:

**Tabl 4 Diffiniadau o gapasiti**

| *Lefel* | *Diffiniad* |
|---|---|
| **Dim capasiti/ wedi cyrraedd capasiti** | Nid yw'r ardal yn gallu ymdopi ag unedau ychwanegol/unrhyw unedau oherwydd bod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig a/neu oherwydd bod ganddi ddatblygiadau carafannau/cabanau gwyliau/gwersylla sylweddol sydd eisoes yn cael effaith niweidiol gronnol sylweddol ar gymeriad. |
| **Cyfyngedig** | Mae'r ardal yn gallu ymdopi ag unedau ychwanegol cyfyngedig iawn yn ymwneud â safleoedd presennol yn unig oherwydd bod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig a/neu oherwydd bod ganddi ddatblygiadau carafannau/cabanau gwyliau/gwersylla sydd eisoes yn cael effaith niweidiol gronnol sylweddol ar gymeriad. |
| **Cymedrol** | Mae'n bosibl y gallai'r ardal ymdopi â rhai unedau ychwanegol mewn rhai sefyllfaoedd diffiniedig oherwydd bod ganddi sensitifrwydd rhwng uchel/canolig a chanolig/isel a/neu oherwydd bod ganddi rai datblygiadau carafannau/cabanau gwyliau/gwersylla sy'n cael effaith niweidiol ar gymeriad mewn rhannau. |
| **Sylweddol/ cymedrol** | Mae'r ardal yn gallu ymdopi ag unedau ychwanegol mewn llawer o sefyllfaoedd heb effeithiau niweidiol ar gymeriad oherwydd bod ganddi sensitifrwydd rhwng isel a chanolig/isel a/neu oherwydd bod ganddi ddatblygiadau carafannau/cabanau gwyliau/gwersylla sy'n cael ychydig o effaith niweidiol ar gymeriad. |
| **Sylweddol** | Mae'r ardal yn gallu ymdopi â nifer sylweddol o unedau ychwanegol heb effeithiau niweidiol ar gymeriad oherwydd bod ganddi sensitifrwydd rhwng isel a chanolig/isel a/neu oherwydd bod ganddi ddatblygiadau carafannau/cabanau gwyliau/gwersylla nad ydynt yn effeithio ar gymeriad. |

### Canllawiau

2.15. Lle mae'n bosibl i ardal ymdopi ag unedau newydd, rhoddir canllawiau ar sut i leihau effeithiau ar y dirwedd, effeithiau ar y forwedd ac effeithiau gweledol i'r eithaf. Ceir rhestr gyffredinol o ganllawiau lleoli yn **Atodiad B** y dylid ystyried ei bod yn berthnasol i'r adroddiad cyfan. Amlinellir y canllawiau perthnasol ar gyfer pob ACT yn yr asesiad sensitifrwydd a chapasiti ar gyfer pob un hefyd. Mae hyn yn arwain at rywfaint o ailadrodd yn yr adroddiad, ond gobeithir ei bod yn osgoi amheuaeth.

2.16. Mae'r canllawiau lliniaru'n nodi sut i wella safleoedd presennol a sut i gyflawni dyluniadau cadarnhaol mewn safleoedd newydd neu estyniadau. Yn yr un modd â'r canllawiau lleoli, ceir rhestr gyffredinol yn **Atodiad B**, ond rhestrir y ffactorau perthnasol ar gyfer pob ACT, hefyd.

# 3. Trosolwg o faterion a sensitifrwydd

3.1. Mae'r asesiad wedi datgelu nifer o faterion, sef:

- Carafannau sefydlog yw'r math mwyaf gweladwy o ddatblygiad.
- Mae'r crynodiad mwyaf o safleoedd i'r de-ddwyrain o'r sir wrth ddynesu at yr arfordir.
- Mae rhyngwelededd â datblygiadau carafannau a gwersylla ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yng Ngheredigion i'r gogledd sy'n gallu cael effeithiau niweidiol ar ddwy ochr y ffin.
- Y safleoedd sy'n cael yr effaith fwyaf niweidiol ar y dirwedd yw safleoedd â charafannau sefydlog a strwythurau caled eraill wedi'u lleoli ar lethrau agored sy'n wynebu'r arfordir neu'r dirwedd ehangach.
- Mae'r ardaloedd o dirwedd heb ddatblygiad yn bwysig i gynnal cymeriad tirwedd cadarnhaol cyffredinol y Sir.
- Yn aml, y lle gorau i leoli safleoedd mawr a chanolig yw lle mae ganddynt gysylltiad da ag aneddiadau o faint rhesymol.
- Mewn llawer o safleoedd, ceir dwysedd uchel o garafannau sefydlog sy'n llenwi safleoedd â lleiafswm gofod rhyngddynt i gydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r rhain yn cael effaith fwy niweidiol na safleoedd lle mae carafannau wedi'u lleoli o amgylch ymyl caeau neu o amgylch mannau gwyrdd diffiniedig.
- Mae safleoedd nad oes ganddynt osodiad cydlynol a ddyluniwyd yn dda ac nad ydynt wedi'u sgrinio'n briodol yn ddiolwg.
- Ceir enghreifftiau o safleoedd dwysedd isel sy'n gweddu i batrwm y dirwedd ac nad ydynt yn weladwy iawn, sy'n dangos bod modd darparu datblygiad o'r math hwn mewn rhai sefyllfaoedd, e.e. Fforest.
- Mae carafannau sefydlog lliw gwyn neu hufen yn fwy ymwthiol yn gyffredinol, heblaw pan fyddant yn cael eu gweld yn union yn erbyn y nenlinell. Mae rhai gwyrdd golau a gwyrdd tywyll yn llai ymwthiol yn gyffredinol o'u gweld yn erbyn llystyfiant, cloddiau neu gaeau.
- Gall amrywiad sylweddol mewn dyluniadau neu liwiau carafannau sefydlog o fewn safle neu ar y cyd â mathau eraill o ddatblygiadau fod yn ddiolwg oni bai eu bod yn ffurfio patrwm rhesymegol a chydlynol, e.e. carafannau gwyn/hufen yn erbyn nenlinellau a gwyrdd tywyll yn erbyn perthi.
- Mae opsiynau gwersylla fel iyrtau, tipis a phodiau'n ffurfio cyfran fach iawn o nifer gyffredinol yr unedau presennol ac maen nhw'n tueddu i fod ar raddfa fach. Gallant weddu'n foddhaol pan fyddant wedi'u lleoli'n ofalus, ond pan fyddant wedi'u cymysgu â mathau eraill o ddatblygiad caled yn arbennig, fel carafannau sefydlog yn yr un cae, gallant ymddangos yn anghydnaws. Gan eu bod yn aros am y tymor cyfan, mae angen bod yn ofalus iawn wrth eu lleoli a'u trefnu ar safleoedd.
- Mae'r driniaeth wrth y fynedfa i safleoedd yn aml yn anghydnaws â'r lleoliad gwledig oherwydd defnyddir arwyddion lliwgar neu fanylion maestrefol fel waliau a chyrbiau. Mae angen datrysiadau dylunio mwy sensitif ar yr un pryd â sicrhau bod ymwelwyr yn gallu dod o hyd i'r safleoedd.
- Mae'r defnydd o goed conwydd fel perthi ffin neu fel coed o fewn safleoedd yn gwrthdaro â chymeriad y dirwedd leol, ond maen nhw'n parhau i gael eu gosod mewn mannau.

3.2. Dangosir y materion gan ffotograffau a dynnwyd yn ystod yr ymweliadau safle.

*Gellir sgrinio safleoedd carafannau sefydlog trwy ddefnyddio perthi a chadw coed, ar y safle ac o'i amgylch.*



*Mae safleoedd carafannau sefydlog wedi'u pentyrru i fyny llechweddau heb fesurau lliniaru yn amlwg iawn. Nid yw waliau a phlannu planhigion yn cyd-fynd â'r cymeriad.*



*Mae safleoedd ar dir sy'n codi sy'n rhyngweladwy â'r dirwedd ehangach yn amlwg o bellter hyd yn oed.*



*Gall safleoedd â mynedfeydd cynnil sydd wedi'u dylunio a'u diffinio'n dda ac unedau sy'n sefyll i ffwrdd oddi wrth ffyrdd gael eu hintegreiddio'n dda i'r dirwedd.*



*Mae cadw cloddiau brodorol ac osgoi deunyddiau caled wrth y fynedfa'n beth da, ond gallai'r arwyddion fod yn fwy cynnil ar yr un pryd â dangos y fynedfa'n glir - gweler uchod ac isod.*




*Mae waliau cerrig wrth fynedfeydd yn tueddu i fod yn fwy cynnil na rendr, er y gallai'r garafán wrth y fynedfa gael ei sgrinio'n well. Mae gwaith cynnal a chadw o ansawdd uchel i'w weld mewn rhai safleoedd.*



*Mae gwrychoedd ffin coed conwydd yn anghydnaws â chymeriad y dirwedd.*



*Mae ffens fferm yn anghydnaws â chymeriad y dirwedd ac nid yw'n lliniaru o gwbl.*



*Mae carafannau sefydlog wedi'u gosod yn erbyn cloddiau heb berthi ac ychydig iawn o fesurau lliniaru yn amlwg. Gall coed conwydd fod yn anghydnaws ac mae ffensys yn diraddio'r cymeriad.*



# 4. Crynodeb o'r argymhellion ar gyfer ACTau

4.1. Prif argymhellion yr adroddiad hwn, yn gyffredinol, yw lleoli unrhyw ddatblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth yr arfordir, aberoedd a'r Preseli a sicrhau nad yw'n rhyngweladwy â nhw, osgoi tir amlwg neu agored, llethrau serth, dyffrynnoedd cul a chyfyngiadau hanesyddol a chadwraeth natur arwyddocaol, fel bod cymeriad tirwedd y Sir yn cael ei warchod ac ni cheir effaith niweidiol ar leoliad a nodweddion allweddol y Parc Cenedlaethol. Lle y ceir datblygiad presennol amlwg, yn enwedig yn agos i'r arfordir, argymhellir bod y safleoedd yn cael eu gwella trwy ddiwygio gosodiad carafannau sefydlog yn arbennig, cynyddu plannu brodorol a lle amwynder neu unedau tymhorol mewn lleoliadau mwy amlwg o fewn y safleoedd.

4.2. Ystyrir bod rhai ardaloedd o ACTau lle y ceir dwysedd sylweddol o ddatblygiad presennol wedi cyrraedd eu capasiti ac mae angen i rai safleoedd presennol gael eu gwella. Mae hyn yn wir mewn lleoliadau amrywiol yn y de-ddwyrain. Ystyrir bod ardaloedd eraill heb ddatblygiad yn sensitif iawn ac y dylid cynnal eu cymeriad heb ddatblygiad newydd. Mae'r rhain yn cynnwys cefnennau a dyffrynnoedd cul coediog. Mae ACTau eraill lle y ceir potensial ar gyfer safleoedd newydd, ar raddfa fach fel arfer, neu ymestyn safleoedd presennol. Fodd bynnag, mae angen i'r rhain gael eu lleoli a'u dylunio'n ofalus iawn (yn unol â'r canllawiau) er mwyn lleihau effeithiau niweidiol i'r eithaf.

4.3. Egwyddor allweddol yw os yw'r astudiaeth o'r farn bod math penodol o ddatblygiad ar raddfa benodol yn dderbyniol mewn ACT benodol, er enghraifft safle newydd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa fach, nid yw hyn yn golygu, os caiff ei weithredu, y byddai'n briodol neu'n dderbyniol cynyddu maint y safle neu ddwysáu defnydd ohono yn y dyfodol. Mae angen i'r potensial ar gyfer effeithiau cronnol gael ei ystyried fel nad yw safleoedd yn dod yn nodwedd allweddol o ardal. Bydd sensitifrwydd a chapasiti'r ACTau yn yr astudiaeth hon yn aros yn ddigyfnewid gan eu bod wedi'u seilio ar gymeriad sylfaenol yr ardaloedd.

4.4. Er bod yr asesiad hwn yn rhoi cyd-destun a fframwaith cyffredinol, mae'n bwysig bod safleoedd unigol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol, gan ganiatáu hyblygrwydd a rhoi disgresiwn i swyddogion cynllunio sy'n gweithio yn unol â chyfres glir o feini prawf. Archwilir y rhain ym mhapur polisi Rhan 2.

**Ystyried datblygiad yn seiliedig ar nifer yr unedau**

4.1. Cynhaliwyd yr asesiad sensitifrwydd a chapasiti ar sail arwynebedd safle er mwyn bod yn gyson ag astudiaeth PCAP ac oherwydd dyma un o'r prif ystyriaethau o ran cydweddu â chymeriad a phatrwm y dirwedd. Fodd bynnag, nodwyd bod dwysedd rhai mathau newydd o ddatblygiadau ar ben uchaf y farchnad yn is o lawer na mathau 'traddodiadol' o ddatblygiadau carafannau, a gallant gael llai o effaith ar gymeriad y dirwedd mewn rhai sefyllfaoedd.

4.2. Gwnaed amcangyfrifiad bras o ddwysedd sampl o ddatblygiadau trwy fapio lluniau o'r awyr. Mae gan y prif safle 'glampio' yn y sir ar ben uchaf y farchnad sydd wedi'i leoli'n gynnil yn Fforest ger Cilgerran ddwysedd gros isel iawn (gan gynnwys cyfleusterau) o oddeutu 2 uned/Ha. Mae gan y safle carafannau a ddatblygwyd yn ddwys yn Rumbleway, New Hedges, ddwysedd gros o oddeutu 31 o garafannau sefydlog/Ha a 45 o garafannau teithio/Ha. Mae gan y safle carafannau dwysedd canolradd yn Crackwell, Penalun, ddwysedd gros o oddeutu 28 o garafannau sefydlog/Ha a 35 o garafannau teithio/Ha. Byddai'n anghywir datgan petai'r ddau safle olaf yn cael eu datblygu gydag unedau traddodiadol i'r un dwysedd â Fforest y byddent yn cael yr un effaith neu effaith lai ar y dirwedd, oherwydd byddai angen iddynt rychwantu ardal fawr iawn (15-20

gwaith yn fwy), gan newid y cymeriad yn sylweddol. Fodd bynnag, o ran datblygiadau ar ben uchaf y farchnad gydag unedau glampio dwysedd isel iawn, a ddyluniwyd yn unol â'r canllawiau yn **Atodiad B**, fe allai fod rhywfaint o hyblygrwydd wrth ganiatáu datblygiadau y mae arnynt angen arwynebedd mwy na throthwyon capasiti'r ACT berthnasol.

4.3. Trwy osod trothwyon arwynebedd safle ar gyfer ACTau, cydnabyddir y gallai cynigion gael eu cyflwyno, yn enwedig ar gyfer carafannau sefydlog, â dwysedd uwch o unedau er mwyn cynyddu'r capasiti i'r eithaf o fewn maint trothwy'r safle. Mae'r ymagwedd hon yn annymunol iawn oherwydd byddai'n debygol o olygu y byddai'r datblygiad yn cael mwy o effaith ar y dirwedd ac yn weledol a llai o werth amwynder. Byddai'n annhebygol iawn o gyd-fynd â'r canllawiau yn **Atodiad B** a ddefnyddir i farnu derbynioldeb tebygol cynigion.

4.4. Rhoddir isod grynodeb o'r canfyddiadau capasiti cyffredinol a sensitifrwydd ar gyfer pob ACT mewn ffigurau a thablau cryno sy'n dangos patrwm sensitifrwydd a chapasiti. Ystyrir pob ACT yn unigol yn **Adran 5.0**.

## Tabl 5 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd – Sensitifrwydd

| ACT | | Sensitifrwydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Enw | Sefydlog: mawr | Sefydlog: canolig | Sefydlog: bach | Tymhorol: mawr | Tymhorol: canolig | Tymhorol: bach |
| 1 | Treffynnon | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig /isel | Canolig/ isel |
| 2 | Tremarchog | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig |
| 3 | Abergwaun Arfordirol | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |
| 4 | Mynydd Cilciffeth | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig |
| 5 | Iseldiroedd Scleddau | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |
| 6 | Mynyddoedd Treffgarne a Plumstone | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig |
| 7 | Pelcomb a Chroes Simpson | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig/isel | Isel |
| 8 | Hwlffordd | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig/isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 9 | Iseldiroedd Johnston | Canolig | Canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 10 | Gogledd yr Hafan | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 11 | Gorllewin Cleddau | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |
| 12 | Iseldiroedd Landsger | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 13 | Llandudoch | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |
| 14 | Dyffrynnoedd Coediog Afon Cych ac Afon Taf | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig |
| 15 | Boncath | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig | Canolig | Canolig /isel | Canolig/ isel |
| 16 | Ardal Ddatblygedig De yr Hafan | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 17 | Ucheldiroedd Mynydd Preseli | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/canolig | Canolig |
| 18 | Dyffrynnoedd Dwyrain Cleddau | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/isel |
| 19 | Arberth a Bro Llanbedr Pont Steffan | Canolig | Canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 20 | Iseldiroedd Jeffreyston | Canolig | Canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 21 | Penalun | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |
| 22 | Aberdaugleddau | Uchel | Uchel/ canolig | Canolig/ isel | Canolig | Canolig /isel | Isel |
| 23 | Cyrion Diwydiannol De yr Hafan | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig |
| 24 | Fflatiau Llaid De yr Hafan | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel |
| 25 | Hundleton a Llandyfái | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/isel |
| 26 | Maenclochog | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig |
| 27 | Trecŵn | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel |
| 28 | Ceunant Treffgarne | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig |
| 29 | Penrhyn Cosheston | Uchel | Uchel | Uchel/ canolig | Uchel/ canolig | Canolig | Canolig/ isel |

## Tabl 6 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd – Capasiti

| ACT | | Capasiti | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Enw | Sgôr gyffredinol | Safleoedd newydd | Estyniadau gyda mwy o lety | Estyniadau heb fwy o lety | Newidiadau o fewn safleoedd | Gwelliannau tirweddu/ gosodiad |
| 1 | Treffynnon | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Ie | |
| 2 | Tremarchog | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 3 | Abergwaun Arfordirol | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig | |
| 4 | Mynydd Cilciffeth | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 5 | Iseldiroedd Scleddau | Cymedrol | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig iaw | Ie | |
| 6 | Mynyddoedd Treffgarne a Plumstone | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 7 | Pelcomb a Chroes Simpson | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig | Dim | Ie | |
| 8 | Hwlffordd | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 9 | Iseldiroedd Johnston | Cymedrol | Rhywfaint | Dim | Dim | Cyfyngedig | |
| 10 | Gogledd yr Hafan | Cymedrol | Cyfyngedig | Amh | Amh | Amh | |
| 11 | Gorllewin Cleddau | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 12 | Iseldiroedd Landsger | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig iaw | Dim | Cyfyngedig | |
| 13 | Llandudoch | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 14 | Dyffrynnoedd Coediog Afon Cych ac Afon Taf | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig iaw | Dim | Cyfyngedig | |
| 15 | Boncath | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig | Dim | Cyfyngedig | |
| 16 | Ardal Ddatblygedig De yr Hafan | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 17 | Ucheldiroedd Mynydd Preseli | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 18 | Dyffrynnoedd Dwyrain Cleddau | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig iaw | Ie | |
| 19 | Arberth a Bro Llanbedr Pont Steffan | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig iaw | Dim | Ie | |
| 20 | Iseldiroedd Jeffreyston | Cymedrol | Rhywfaint | Cyfyngedig | Yes | Ie | |
| 21 | Penalun | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Dim | Cyfyngedig | Ie | |
| 22 | Aberdaugleddau | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 23 | Cyrion Diwydiannol De yr Hafan | Dim capasiti | Dim | Amh | Amh | Amh | |
| 24 | Fflatiau Llaid De yr Hafan | Dim capasiti | Dim | Amh | Amh | Amh | |
| 25 | Hundleton a Llandyfái | Cyfyngedig | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Dim | Ie | |
| 26 | Maenclochog | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Cyfyngedig iaw | Dim | Cyfyngedig | |
| 27 | Trecŵn | Dim capasiti | Dim | Amh | Amh | Amh | |
| 28 | Ceunant Treffgarne | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |
| 29 | Penrhyn Cosheston | Cyfyngedig | Cyfyngedig iaw | Amh | Amh | Amh | |

# 5. Asesiadau Sensitifrwydd a Chapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

# RHAN 2

# 6. Tueddiadau

6.1. Gellir ystyried y tueddiadau yn y diwydiant gwersylla, carafannau a chabanau gwyliau yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd yn genedlaethol a'r hyn sy'n digwydd yn Sir Benfro ei hun.

**Tueddiadau cyffredinol**

6.2. Mae archwilio astudiaethau ystadegol a gwefannau sy'n hyrwyddo carafannau a gwersylla yn dangos darlun ychydig yn ddryslyd, gan adrodd tueddiadau croes weithiau. Er bod gweithredwyr y diwydiant yn nodi bod y farchnad ar gyfer gwersylla a charafanio'n tyfu yn gyffredinol, mae setiau data cenedlaethol yn cyfleu darlun llai optimistaidd.

6.3. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb parhaus mewn glampio a darpariaeth fwy moethus fel iyrtau a phodiau ar ben uchaf y farchnad, a chynnydd yn nifer y cartrefi modur a werthir.

**Tueddiadau yn y Deyrnas Unedig**

6.4. Mae'r **Cyngor Carafannau Cenedlaethol** (NCC) yn adrodd y canlynol ynglŷn â'r diwydiant carafannau yn y Deyrnas Unedig**:**

- Mae'n cyfrannu mwy na £6 biliwn y flwyddyn at economi'r Deyrnas Unedig (o werthu cynhyrchion a gwasanaethau cysylltiedig, archebu gwyliau ac ati)
- Mae'n cyflogi tua 130,000 o bobl, gan gynnwys staff rhan-amser a thymhorol (mewn parciau yn bennaf)
- Mae pobl yn treulio tua 50 miliwn o nosweithiau mewn carafannau bob blwyddyn
- Yn 2017, roedd mwy na 14,062 o gartrefi modur newydd wedi cael eu cofrestru - 14% yn fwy na'r 12,332 yn 2016

6.5. Yn y Deyrnas Unedig, mae'r NCC yn amcangyfrif bod y canlynol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd[1]:

- 555,000 o garafannau teithio
- 365,000 o gartrefi gwyliau carafán (o gymharu â 330,000 yn 2015[2])
- mwy na 225,000 o gartrefi modur (o gymharu â 205,000 yn 2015)

6.6. Gwelodd y **Clwb Carafannau a Chartrefi Modur**, sydd â bron miliwn o aelodau a 2,700 o leoliadau, gynnydd 12% mewn archebion yn ystod yr haf yn 2018 o gymharu â 2017. Yn ogystal, bu cynnydd 17% o flwyddyn i flwyddyn yn ystod gŵyl banc mis Mai ar draws ei rwydwaith o safleoedd a thwf 5% mewn archebion ar gyfer gŵyl banc mis Awst.

6.7. Mae mwy o bobl yn mynd ar wyliau yn y Deyrnas Unedig nag o'r blaen – 'gwyliau gartref'. Rhwng 2011 a 2014, aeth 68% o ddefnyddwyr ar wyliau yn y Deyrnas Unedig o gymharu â 53% a aeth ar wyliau dramor[3].

6.8. Mae hyn wedi cynyddu ers 2016 oherwydd Brexit a gwerth gostyngol y bunt. Mae'r newid tuag at wyliau gartref wedi achosi i refeniw'r diwydiant ffynnu ers 2016-17, pan hybwyd refeniw 12.2%, a disgwylir i'r duedd hon barhau yn ystod y flwyddyn bresennol **(IBISWorld 2019).**

6.9. Yn ôl **Sanderson Weatherall**, mae syrfewyr adeiladu sy'n arbenigo mewn

[1] Ffeil Ffeithiau'r NCC, gwefan, mis Mehefin 2019- http://www.thencc.org.uk/our_industry/statistics.aspx

[2] Ffeil Ffeithiau'r NCC, gwefan, mis Hydref 2015- http://www.thencc.org.uk/our_industry/statistics.aspx

[3] ~~Yr Adroddiad Tueddiadau Gwyliau Defnyddwyr, ABTA, 2014~~

parciau carafannau yn adrodd am refeniw cryf ac mae llawer o weithredwyr yn elwa o archebion o flaen llaw ar gyfer 2019. Yn 2018, gwnaethant hefyd adrodd bod gwerth llain deithio gyffredin wedi cynyddu i ychydig dros £9,000, sef 12.5% yn uwch na 2017.

6.10. Fodd bynnag, mae **Arolwg Twristiaeth Prydain, Gorffennaf 2017** yn adrodd bod teithiau dros nos domestig o fis Gorffennaf 16 i fis Gorffennaf 17 wedi gostwng 3%, a bod gwariant cyffredinol wedi gostwng 2%.

6.11. Mae **Adroddiad Blynyddol Twristiaid Prydain Fawr 2017 KANTAR** yn dangos, yn genedlaethol, cynnydd +1.0% mewn teithiau twristiaeth rhwng 2016 a 2017. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y nosweithiau +2.7%, a chynyddodd gwariant +2.6 hefyd. Fodd bynnag, mae mwy o deithiau yn y Deyrnas Unedig; cynyddodd teithiau preswylwyr Prydain Fawr ym Mhrydain Fawr 5.8% yn 2016-17.

6.12. Aeth oedolion yn y Deyrnas Unedig ar fwy na 17 miliwn o deithiau gwersylla a charafanio yn 2016, yn ôl Mintel. Disgwylir i hyn gynyddu i 17.9 miliwn eleni.

**Tueddiadau yng Nghymru**

6.13. Yng **Nghymru**, gostyngodd nifer y teithiau 3.2% yn gyffredinol o 2016 i 2017. Cyfanswm y gwariant ar dwristiaeth ddomestig yng Nghymru oedd 1.6bn, sy'n ostyngiad o'r ffigur 1.7bn yn 2016. Mae tuedd tymor hir teithiau twristiaeth yng Nghymru, o 2011 i 2017, yn dangos gostyngiad blynyddol cyfartalog o 1% yn nifer y teithiau.

6.14. Mae llety gwersylla neu garafanio'n cynrychioli 37% o'r holl deithiau yng Nghymru a 22.6% o'r gwariant.

6.15. Mae **Arolwg Meddiannaeth Llety Twristiaeth Cymru, 2017,** yn dangos bod y cyfartaledd tymhorol ar gyfer cartrefi gwyliau carafán wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2017, i lawr 30 pwynt canran o'r lefelau a welwyd yn 2016. Fodd bynnag, gellir priodoli hyn yn rhannol i ddiffyg cyfranogiad dau weithredwr mawr a gyflenwodd ddata'n flaenorol yn 2016 ond nid yn 2017.

6.16. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd cyfraddau meddiannaeth parciau carafannau teithio a gwersylla 1% o lefelau 2016.

6.17. Gostyngodd cyfartaleddau tymhorol 2017 ar gyfer lleoliadau arfordirol 10 pwynt canran o gymharu â 2016, er bod sampl lai o faint yn ystod misoedd penodol yn gallu effeithio ar hyn. Cynyddodd cyfartaleddau tymhorol ar gyfer lleoliadau mewndirol o'r lefelau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, sef 3 phwynt canran yn uwch o 37% i 40% yn 2017.

**Amrywiaethu mathau o lety**

6.18. Ceir diddordeb parhaus (yn anecdotaidd ac o ffynonellau masnachol) mewn mathau mwy moethus o lety a gynigir, gan gynnwys opsiynau 'glampio' (gwersylla moethus) fel iyrtau, tipis, pebyll saffari moethus (neu 'gabanau'), pebyll cloch, cromenni, pebyll caban, cytiau bugail, carafannau sipsiwn a phodiau (neu bebyll pren). Mae rhai'n strwythurau lled-barhaol sy'n aros yn eu lle am dymor – y rhai hynny a wnaed o ffabrig gan mwyaf. Gallai eraill fod yn sefydlog ar hyd y flwyddyn – y rhai hynny â thoeon ac ochrau 'caled' gan mwyaf. Fe all fod strwythurau ychwanegol fel deciau, ffensys, tybiau poeth, cawodydd a thoiledau sy'n gysylltiedig â'r strwythurau unigol. Mae rhai wedi'u lleoli ar sylfeini ac wedi'u cysylltu â gwasanaethau. Fe all fod cyfleusterau ychwanegol a rennir hefyd, fel ceginau, blociau glanweithdra ac ardaloedd chwarae. Mae rhai safleoedd yn hyrwyddo ffordd o fyw 'eco', ymagwedd ôl troed carbon isel, ac nid yw rhai wedi'u cysylltu â'r grid. Mae'r enghraifft fwyaf amrywiol a mwyaf o ran maint yn Fforest, ger Cilgerran. Mae opsiynau unigryw iawn eraill sy'n cael eu hystyried ar gyfer llety yn cynnwys bysiau wedi'u trawsnewid (fel y rhai i'r de o Grymych), tai pen coed (fel y rhai ger Arberth), cychod wyneb i waered a chyrff awyrennau. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn strwythurau unigol ar eu pen eu hunain.

6.19. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Tachwedd 2018, mae glampio wedi tyfu'n sylweddol. Adroddodd y gweithredwr **Pitchup** fod archebion ar gyfer cabanau i fyny 102%, microgabanau i fyny 114% a phodiau i fyny 73%. Roedd 'rhentu pabell' i fyny 151%, pebyll cloch i fyny 77%, pebyll saffari i fyny 73%, iyrtiau i fyny 52% a chromenni i fyny 26%. Fodd bynnag, mae wigwamiau a thipis yn llai poblogaidd o lawer, gan gynrychioli cyfran dipyn llai o'r archebion. Mae tipis i fyny 4% yn unig tra bod wigwamiau i lawr 33%.

6.20. Yn ôl **Visit England**, roedd carafannau sefydlog a chabanau yn cynrychioli bron hanner (46%) y teithiau llety awyr agored domestig yn 2015. Mae amwynder llety sefydlog, boed hynny'n garafannau sefydlog, cabanau, podiau ac ati, wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae gwres canolog, gwydro dwbl a thybiau poeth yn gyffredin bellach. Mae podiau gwersylla – strwythurau sefydlog â chyfleustodau modern – yn ymddangos mewn llawer o barciau.

6.21. Mae llawer o'r safleoedd 'glampio' yn unig ar raddfa fach. Pan fo'r rhain wedi'u gosod o fewn coed neu goetir eilaidd, maen nhw'n aml wedi'u hintegreiddio'n llwyddiannus i'r dirwedd (e.e. Fforest). Mae rhai, ar raddfa fwy wedi'u gosod mewn caeau agored, yn cyflwyno materion tebyg i safleoedd carafannau sefydlog, h.y. strwythurau caled nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â chymeriad y dirwedd amgylchynol. Lle mae'r mathau newydd hyn o lety'n cael eu gosod o fewn safleoedd carafannau presennol, fe all problemau godi o ran integreiddio rhwng y gwahanol fathau o ddatblygiadau. Gall strwythurau o wahanol ddyluniad, graddfa a chymeriad ymddangos yn lletchwith nesaf at ei gilydd lle nad ydynt wedi'u lleoli, eu dylunio a'u lliniaru'n ofalus – gan fod yn rhy agos yn aml.

6.22. Datgelodd ymchwil a gynhaliwyd gan y wefan '**Family Break Finder**', a holodd 1400 o'u haelodau, fod 50% yn bwriadu aros mewn safle gwersylla neu barc gwyliau lleol y flwyddyn nesaf, tra bod bron traean wedi dweud yn benodol eu bod eisiau rhoi cynnig ar glampio.

6.23. Datgelodd yr arolwg hefyd fod 1 o bob 3 theulu'n disgwyl i'w cyllideb wyliau leihau yn y Flwyddyn Newydd. Ond gan fod glampio'n cael ei ystyried yn opsiwn gwyliau rhad ymhlith y rhai a holwyd, bydd hyn yn cryfhau'r duedd glampio mewn gwirionedd.

6.24. Mae cynlluniau cabanau gwyliau neu gabanau'n cael eu datblygu mewn lleoliadau a berchnogir gan y Comisiwn Coedwigoedd, fel yn Fforest y Ddena. Fel arfer, mae'r safleoedd wedi'u gosod o fewn coed neu goetir. Mae'r rhain yn cael eu datblygu trwy Forest Holidays, sef menter ar y cyd rhwng y Comisiwn Coedwigoedd a Chlwb Gwersylla a Charafanio Prydain Fawr. Hyd yma, mae naw safle wedi cael eu datblygu yn Lloegr a'r Alban ac mae mwy yn yr arfaeth. Yr agosaf i Sir Benfro ar hyn o bryd yw Fforest y Ddena, lle y ceir tua 120 o gabanau gwyliau ar safle coetir a dolydd cymysg gyda chyfleusterau cymunedol. Mae safle arall wedi cael caniatâd cynllunio o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yng Ngarwnant).

**Tueddiadau yn Sir Benfro**

6.25. Cynhaliodd Arolwg Ymwelwyr Sir Benfro 2011-2012, a oedd yn cynnwys y sir gyfan, asesiad ansoddol a meintiol. Dangosodd sampl o fwy na 1,500 o bobl a holwyd ynglŷn â pham yr oeddent wedi ymweld â'r ardal mai eu tri rheswm pennaf, yn ôl eu trefn, oedd harddwch y dirwedd naturiol, oherwydd ei bod yn heddychol, yn dawel a/neu'n ymlaciol, ac oherwydd traethau a/neu ymdrochi o ansawdd uchel (Tabl F, tudalen 43).

6.26. Canfu'r Arolwg fod pobl yn aros 8.8 noson yn yr haf, ar gyfartaledd, a oedd yn lleihau yn yr hydref a'r gwanwyn ond a oedd yn 6.4 noson yn y gaeaf. O ran lleoliad, roedd yn ymddangos bod Dinbych-y-pysgod yn colli ei goruchafiaeth fel y lle i aros a grybwyllwyd fwyaf, a bod Tyddewi yn agos. Roedd Arberth wedi cynyddu hefyd yn uniongyrchol o ganlyniad i ddatblygiad Bluestone (tudalen 91).

6.27. Rhwng 2007/8 a 2011/12, roedd arosiadau gwersylla taledig wedi lleihau o 11% i

5%, roedd arosiadau mewn carafannau teithio/cartrefi modur wedi lleihau o 2% i 1% ac roedd arosiadau taledig mewn carafannau sefydlog wedi lleihau o 7% i 4% (tudalen 92). Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod arosiadau mewn carafannau teithio/cartrefi modur yn 7% yn 2003/4, felly mae'r gostyngiad yn ymddangos yn eithaf arwyddocaol. Mae'r holl ffigurau uchod dros 7 mlwydd oed ac fe allai tueddiadau fod wedi newid ers hynny.

6.28. Mae arsylwi a phrofiad o Sir Benfro yn dangos y tueddiadau canlynol.

- Mae pwysau am garafannau sefydlog neu unedau glampio sefydlog i ddisodli lleiniau carafannau teithio, ac am leiniau unedau i ddisodli lle anffurfiol ar gyfer pebyll.
- Mae'n ymddangos bod y pwysau dwysaf i'r de-ddwyrain o amgylch Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Amroth a Phenalun (y tu mewn a'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol), ond mae pwysau tua'r tir o Fae Sain Ffrêd hefyd.
- Mwy o nodweddion ychwanegol fel decin a phaneli solar, yn enwedig ar safleoedd carafannau sefydlog.
- Mwy o ardaloedd llawr caled parhaol a graean ar leiniau yn hytrach na lleiniau glaswellt.
- Cynnydd mewn maint carafannau sefydlog, gydag unedau dwbl yn cael eu defnyddio ar nifer o safleoedd.
- Mwy o doeon ar oleddf ar garafannau sefydlog.
- Mae nifer o safleoedd sydd wedi'u hardystio gan y Clwb Gwersylla a Charafanio a'r Clwb Carafannau sydd â charafannau, er nad yw rhai'n cael llawer o ddefnydd.
- Mae cromenni a phebyll caban, ac iyrtau a phodiau yn amlwg ar rai safleoedd, fel Fforest a Florence Springs, yn y drefn honno, ond mae'r niferoedd yn fach yn gyffredinol.
- Mae datblygiad cabanau gwyliau neu gabanau'n llai amlwg, heblaw am gyrchfan gwyliau mawr iawn Bluestone ar gyrion y Ddau Gleddau, yn y Parc Cenedlaethol yn bennaf, a rhai ysguboriau wedi'u hailddefnyddio fel Fforest.
- Mae nifer o safleoedd gwersylla nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio ond sy'n gweithredu o dan y rheol 28 niwrnod.
- Mae gosod lloriau caled, goleuadau ac arwyddion ar gyfer carafannau teithio a phebyll yn golygu nad yw caeau a ddefnyddir ar gyfer llety yn yr haf yn cael eu defnyddio ar gyfer pori yn y gaeaf. I bob pwrpas, mae llawer o safleoedd yn cynnig lleiniau parhaol ac mae perchnogion carafannau'n storio eu faniau ar y safle ar hyd y flwyddyn.
- Mae carafannau teithio a cherbydau gwersylla symudol unigol i'w rhentu, rhai ohonynt ar safleoedd mwy o faint, yn cael eu hysbysebu trwy wefannau fel AirBnB.

6.29. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod pwysau parhaus am lety yn Sir Benfro a bod datblygiad yn symud fwyfwy oddi wrth bebyll teithio tymhorol i ddewisiadau glampio, o garafannau i gartrefi modur ac o leiniau tymhorol i unedau sefydlog.

**Ceisiadau cynllunio diweddar**

6.30. Bu nifer o geisiadau cynllunio yn 2018. Mae'r rhai a gymeradwywyd yn cynnwys:

- Pedair ar ddeg o unedau hunanarlwyo (carafannau sefydlog) ym Mharc Gwyliau Myrtle (Sunny Vale), yng nghwadrant de-ddwyreiniol Broadmoor.
- Deg caban gwyliau newydd yng nghyrchfan a chwrs golff Heron's Brook, i'r de o Arberth

- Ymestyn y safle ym Mharc Carafannau Ryelands, Cilgeti heb gynyddu nifer yr unedau (o 58 o leiniau ac 20 o leiniau storio i 78 o leiniau maint llawn gyda gwelliannau tirweddu a chyfleusterau gwell)
- Pum llain ychwanegol ar gyfer carafannau teithio ar Fferm Croes Pelcomb, i'r gorllewin o Hwlffordd

6.31. Gwrthodwyd cais ar gyfer 43 o leiniau carafannau teithio ac adeiladau cyfleusterau cysylltiedig ar dir amaethyddol gerllaw Tenby Tourers, Llan-teg, ar yr A477.

6.32. Roedd yn ymddangos bod cais yn weddill ar yr adeg ysgrifennu ar gyfer 30 o unedau carafannau sefydlog ychwanegol a gwelliant ecolegol ym Mharc Hamdden New Minerton. Dyma'r safle ar lechwedd y dangoswyd yn Rhan 1 yr adroddiad ei fod yn weladwy o gryn bellter yng nghefn gwlad agored.

6.33. Mae'n ymddangos bod yr holl geisiadau a gymeradwywyd mewn ardaloedd lle yr amlygodd Rhan 1 yr astudiaeth y gallai rhywfaint o ddatblygiad wedi'i leoli a'i ddylunio'n briodol fod yn dderbyniol o ran y dirwedd ac yn weledol. Mae'r prif achos pryder o amgylch Arberth, lle mae angen bod yn ofalus iawn i gynnal cymeriad y dirwedd yn lleoliad ac amgylchoedd y dref. Nodir bod y ceisiadau a gymeradwywyd yn gymharol gymedrol o ran eu huchelgeisiau yn gyffredinol neu'n cynrychioli gwelliant sylweddol tebygol o ran integreiddio â'r dirwedd, fel yn achos Ryelands.

# 7. Cyd-destun polisi presennol

**Cyd-destun Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

7.1. Ceir canllawiau cenedlaethol ynglŷn â datblygiad twristiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) 10 a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth, 1997.

7.2. Mae **PPW 10** yn datgan bod Cymru gydnerth yn cael ei chefnogi gan ddiwydiannau amaethyddol a thwristiaeth a thrwy harddwch yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol. Mae angen i ddatblygiad twristiaeth gael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i'w fwynhau (tudalen 74). Fodd bynnag, mae hefyd yn datgan y dylid gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd cysylltiedig â thwristiaeth, gan fanteisio ar yr asedau naturiol a hanesyddol presennol (tudalen 76).

7.3. Mae datblygiad cysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig yn elfen hanfodol sy'n darparu economi amrywiol. Yma, dylai datblygiad fod yn ystyriol o'r amgylchedd lleol o ran natur a graddfa (5.5.3). Dylai awdurdodau cynllunio ddarparu fframwaith ar gyfer cynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd da sydd wedi'u lleoli'n dda a'u dylunio'n dda (5.5.6). Dylent ystyried graddfa a dosbarthiad eang atyniadau twristiaid presennol ac arfaethedig a galluogi darparu datblygiad ategol fel llety a mynediad mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar effeithiau amgylcheddol negyddol yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i wella bioamrywiaeth (5.5.6).

7.4. Mae gan awdurdodau cynllunio ddyletswydd statudol i ystyried dibenion Parciau Cenedlaethol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r holl weithgareddau sy'n effeithio ar Barciau Cenedlaethol, p'un a yw'r gweithgareddau hynny yn yr ardaloedd dynodedig neu o fewn eu lleoliad (6.3.5). Mae'r olaf yn berthnasol i'r ardal astudio mewn mannau.

7.5. Mewn Parciau Cenedlaethol, dylai awdurdodau cynllunio roi pwys mawr i ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol, sef gwarchod a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu nodweddion arbennig (6.3.6). Dylid rhoi pwys i nodweddion arbennig ardaloedd dynodedig yn y broses cynllunio datblygiad a

rheoli datblygiad (6.3.9). Dylai'r nodweddion arbennig hyn gael eu hystyried yn Sir Benfro ac maen nhw'n cynnwys

7.6. Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth, 1997,** yn hen ond mae'n parhau i fod yn berthnasol. Mae'n datgan, wrth baratoi cynlluniau datblygu, y dylai awdurdodau cynllunio lleol ymchwilio i ddigonolrwydd cyfleusterau a chysoni'r anghenion hyn â diogelu'r amgylchedd. Gall safleoedd carafannau gwyliau fod yn ymwthiol yn y dirwedd, yn enwedig ar yr arfordir. Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i gynigion ar gyfer safleoedd newydd, yn enwedig mewn Parciau Cenedlaethol. Mae'r galw am safleoedd wedi bod ar ei fwyaf yn yr ardaloedd gwyliau mwyaf poblogaidd, yn enwedig ar yr arfordir, er bod galw cynyddol tua'r tir.

7.7. Dylai safleoedd newydd ac wedi'u hymestyn gael eu sgrinio a'u cynllunio'n effeithiol fel nad ydynt yn ymwthiol yn weledol. Dylai safleoedd sefyll ychydig yn ôl tua'r tir lle nad ydynt yn weladwy o'r arfordir nac ar hyd-ddo. Dylai polisïau ar gyfer gwella ansawdd safleoedd gael eu cynnwys mewn cynlluniau.

**Polisïau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP)**

**Cynllun Datblygu Lleol presennol PCAP**

7.8. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) presennol (dyddiad gorffen 2021) yn egluro bod rhaid i unrhyw bolisi o fewn PCAP gael ei ystyried yng nghyd-destun yr angen i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, sef:

- Cadwraeth a gwelliant i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
- Dealltwriaeth a mwynhad i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc gan y cyhoedd.

7.9. Ategir y rhain gan Egwyddor Sandford, sy'n datgan goruchafiaeth y diben cyntaf dros yr ail mewn achosion lle y ceir gwrthdaro na ellir ei gysoni.

7.10. Gan adlewyrchu'r ffaith bod Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw â phoblogaeth breswyl, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd yn unol â dibenion y Parc i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol.

7.11. Mae polisïau'r CDLl presennol wedi'u cynnwys yn Adran D ar yr economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio gwledig. Amlinellir y materion allweddol ym mhennod 2 y CDLl, sef:

- Sut i ddod o hyd i ddull o ddatblygu yng nghefn gwlad sy'n helpu i gynnal ac arallgyfeirio cymunedau gwledig ond sydd eto'n gwarchod rhag datblygiadau anghynaliadwy yng nghefn gwlad.
- Sut y gall y Parc Cenedlaethol fynd i'r afael â natur dymhorol yr economi ymwelwyr yn nhermau cynllunio'r defnydd o dir?
- Mae'r economi ymwelwyr yn tra-arglwyddiaethu mewn rhai mannau yn y Parc ac mae angen rheoli hyn yn rhagweithiol.
- Sut i gynnal a gwella'r economi ymwelwyr.

7.12. Nid yw Polisïau 35 i 41 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn caniatáu unrhyw leiniau gwersylla, carafanio na chabanau gwyliau ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod datblygiad blaenorol cysylltiedig â hamdden wedi sefydlu ac ymestyn mewn cyfnod pan oedd llai o reolaeth gynllunio. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar gymeriad rhai ardaloedd. Mae'r polisïau'n cydnabod bod angen cynnig llety gwyliau amrywiol ar hyd y tymhorau i helpu i gynnal yr economi wledig.

**CDLl wedi'i Adneuo PCAP**

7.13. Mae'r CDLl wedi'i Adneuo (hyd at 2031) yn datgan yn ei Bolisi 39 trosfwaol ar yr Economi Ymwelwyr, mai ei nod yw denu ymwelwyr y tu allan i'r tymor brig ar yr un pryd â sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn cael ei warchod a'i wella fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol trwy ganiatáu datblygiad carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau cyfyngedig. Caiff hyn ei fireinio ym Mholisi 42 a ategir gan yr asesiad o gapasiti carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau (Tachwedd 2015) y nodir ei fod yn asesiad systematig o gapasiti 28 o ardaloedd cymeriad tirwedd presennol i ymdopi ag ystod o wahanol fathau o lety. Mae'r astudiaeth hon yn awgrymu bod potensial ar gyfer datblygiadau penodol ar raddfa ac o fath cyfyngedig mewn rhai ardaloedd ar yr un pryd â chynnal polisi o ataliaeth mewn mannau eraill.

7.14. Gan fod patrymau defnydd yn parhau i newid, mae polisïau wedi'u seilio ar egwyddorion craidd sy'n gwahaniaethu rhwng graddfa a pharhauster cymharol datblygiad, h.y. y gwahaniaeth rhwng unedau sefydlog sy'n bresennol ar hyd y flwyddyn ac unedau teithio sy'n bresennol am ran o'r tymor.

7.15. Mae Polisi 42 Datblygiadau Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau yn datgan y bydd safleoedd carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau newydd a newidiadau i lety o fewn safleoedd presennol yn cael eu hystyried i ffwrdd oddi wrth yr arfordir a'r Preseli ac mewn lleoliadau nad ydynt yn rhyngweladwy â nhw. Bydd estyniadau i safleoedd presennol yn cael eu hystyried pan fo'r estyniad mewn lleoliad sydd wedi'i sgrinio'n dda. Caniateir estyniadau i safleoedd presennol nad ydynt yn cynyddu nifer y lleiniau er mwyn cyflawni gwelliant amgylcheddol clir lle mae gan safleoedd presennol rannau amlwg iawn, sy'n aml yn weladwy o'r arfordir a dyfroedd mewndirol, a lle mae estyniadau'n caniatáu i leiniau gael eu trosglwyddo i leoliadau mwy cynnil. Mae'r meini prawf ar gyfer cynigion a gyflwynir yn cynnwys osgoi lleoliadau sensitif ac effaith niweidiol annerbyniol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol (gan gyfeirio at Bolisi 16 PCAP), dim effeithiau niweidiol cronnol annerbyniol, defnyddio adeiladau presennol ar gyfer cyfleusterau atodol, ac achub ar gyfleoedd i wella a lleihau effaith ar y dirwedd amgylchynol.

7.16. Nodir bod yr Asesiad Capasiti (2015) yn rhoi cyngor cyffredinol a manwl ar sut i gymathu cynigion i'r dirwedd a sut i liniaru a gwella. Mae'r argymhellion a'r canllawiau sydd wedi'u teilwra i bob ardal cymeriad tirwedd yn cael blaenoriaeth dros y canllawiau cyffredinol yn Atodiad B yr asesiad. Yna, amlinellir ei ddiffiniadau o faint ardal a'r math o ddatblygiad, yn enwedig glampio, yn fanwl.

7.17. O ran effeithiau cronnol, yr egwyddor allweddol a ddefnyddir yw os yw datblygiad o fath penodol ar y raddfa benodol yn dderbyniol mewn ardal cymeriad tirwedd benodol, nid yw hynny'n golygu, petai'n cael ei weithredu, y byddai'n briodol nac yn dderbyniol cynyddu maint y safle neu ddwysáu defnydd ohono yn y dyfodol.

7.18. Ymdrinnir â chyfleusterau ar safleoedd gwersylla, cabanau gwyliau a charafannau ym Mholisi 43. Caniateir y rhain os gellir dangos bod graddfa a dyluniad y cyfleuster yn gydnaws â chymeriad yr ardal amgylchynol, ynghyd ag argaeledd y cyfleuster hwnnw yn y cyffiniau.

7.19. Ystyriwyd gwelliannau i'r cynllun wedi'i adneuo yn ystod y toriad yn yr Archwiliad o'r CDLl. Roedd pwyntiau gweithredu yn gysylltiedig â Pholisi 42 yn cynnwys cyfeiriad at y math o lety a'r angen i symleiddio maen prawf. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod mwyafrif y polisi'n gyflawn.

7.20. At ei gilydd, mae polisïau'r cynllun wedi'i adneuo yn dibynnu'n drwm ar eiriad a chanfyddiadau'r Asesiad o Gapasiti (2015). Oherwydd dilynwyd astudiaeth o'r un fath yn Sir Benfro, fe allai fod yn briodol ystyried ymagwedd debyg at bolisïau er mwyn cysondeb, yn enwedig gan fod y pwysau mwyaf ar draws y ffin rhwng y

Parc Cenedlaethol a’r Sir yn rhan dde-ddwyreiniol y Sir.

**Cyd-destun cynllunio Sir Benfro**

7.21. Mae’r nifer fawr o safleoedd carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau yn ne-orllewin Cymru arfordirol, y sefydlwyd rhai ohonynt flynyddoedd lawer yn ôl, wedi arwain at bolisi hirsefydlog o ataliaeth tuag at safleoedd a lleiniau ychwanegol gan awdurdodau cynllunio yn y rhanbarth. Atgyfnerthwyd y polisi o ataliaeth yn y 1970au gan lythyr ffurfiol oddi wrth y Frenhines a oedd yn gwneud sylwadau ar yr amhariad gweledol a achosir gan safleoedd carafannau mawr o amgylch arfordir Cymru.

7.22. Amlinellir polisi cynllunio CSP yn CDLl Cyngor Sir Penfro hyd at 2021[4]1. Mae Polisi Strategol 5 y CDLl – Yr Economi Ymwelwyr yn nodi y bydd cynigion ar gyfer datblygiad sy’n ymwneud â’r economi ymwelwyr yn cael eu cefnogi ar yr amod eu bod mewn lleoliadau cynaliadwy, yn cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd llety ac atyniadau, yn parchu a diogelu’r amgylchedd ac o fudd i gymunedau lleol.

7.23. Ar hyn o bryd, nid yw Polisi 18 yn caniatáu safleoedd carafannau teithio neu bebyll newydd nac estyniadau i safleoedd presennol o fewn ardal dde-ddwyreiniol y Sir, sef ardaloedd Cyngor Cymuned Amroth, St Florence, Dwyrain Williamston, Penalun, Saundersfoot a Llanfair Dinbych-y-pysgod. Mae’n datgan bod rhaid i unrhyw safleoedd newydd y tu allan i’r ardal hon fod â chysylltiad da ag aneddiadau. Diffinnir cysylltiad da yn y rhestr termau fel ‘*cysylltiad da â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd ffisegol a pherthynas weledol*’. Caniateir estyniadau i safleoedd presennol (hyd yn oed os nad oes ganddynt gysylltiad da) os cyflawnir gwelliant amgylcheddol.

7.24. O ran safleoedd carafannau sefydlog (Polisi 19), ni chaniateir ymestyn safleoedd presennol na mwyhau arwynebedd safleoedd yn y Sir ar hyn o bryd. Caniateir uwchraddio lleiniau teithio i leiniau sefydlog os ydynt y tu allan i’r ardaloedd cyngor cymuned de-ddwyreiniol, wedi’u cysylltu’n dda ag anheddiad ac nad ydynt yn arwain at gynyddu cyfanswm nifer y lleiniau. Mewn amgylchiadau eithriadol, ceir mwyhau arwynebedd safle lle y byddai hyn yn cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol. Caniateir amnewid carafannau sefydlog lle mae sgrinio a lleoliad y dirwedd yn briodol. Y sail i’r polisi hwn oedd y dystiolaeth bod mwy o leoedd gwely yn y Sir na’r galw amdanynt ar yr adeg y cynhyrchwyd y CDLl. Yng ngoleuni hyn, ystyriwyd bod darpariaeth ddigonol ar gael ac, oherwydd yr ymwthiad gweledol y gallai ei achosi, ystyriwyd ei bod yn amhriodol caniatáu darpariaeth newydd yn ystod cyfnod y CDLl. Deëllir bod tystiolaeth newydd wedi cael ei chasglu. Fe allai hyn fireinio’r ymagwedd hon.

7.25. Mae Polisi 20 yn caniatáu uwchraddio a gwella cyfleusterau ar safleoedd carafannau sefydlog, carafannau teithio a phebyll lle na fydd y cynnig yn tanseilio hyfywedd neu fywiogrwydd cyfleuster o fewn anheddiad cyfagos a lle mae’r cynnig yn ymgorffori’r safonau amgylcheddol mwyaf ymarferol. Ni ddylai’r cyfleusterau niweidio’r dirwedd ac mae angen iddynt gael eu dylunio a’u lleoli mewn modd sensitif, gan ddefnyddio strwythurau ac adeiladau presennol lle y bo’n bosibl, a defnyddio rhywogaethau brodorol priodol i gynyddu bioamrywiaeth i’r eithaf mewn mesurau lliniaru tirwedd.

[4]https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan

# 8. Strategaeth ac ymagwedd bolisi argymelledig

**Trafodaeth drosolwg**

8.1. Prif argymhellion Rhan 1 yr adroddiad hwn, yn gyffredinol, yw lleoli unrhyw ddatblygiad newydd i ffwrdd oddi wrth yr arfordir, aberoedd a'r Preseli a sicrhau nad yw'n rhyngweladwy â nhw, osgoi tir amlwg neu agored, llethrau serth, dyffrynnoedd cul a chyfyngiadau hanesyddol a chadwraeth natur arwyddocaol, fel bod cymeriad tirwedd y Sir yn cael ei warchod ac ni cheir effaith niweidiol ar leoliad a nodweddion allweddol y Parc Cenedlaethol. Lle y ceir datblygiad presennol amlwg, yn enwedig yn agos i'r arfordir, argymhellir bod y safleoedd yn cael eu gwella trwy ddiwygio gosodiad carafannau sefydlog yn arbennig, cynyddu plannu brodorol a lle amwynder neu unedau tymhorol mewn lleoliadau mwy amlwg o fewn y safleoedd.

8.2. Ystyrir bod rhai rhannau o ACTau lle y ceir dwysedd sylweddol o ddatblygiad presennol wedi cyrraedd eu capasiti ac mae angen i rai safleoedd presennol gael eu gwella. Mae hyn yn wir mewn lleoliadau amrywiol yn y de-ddwyrain. Ystyrir bod ardaloedd eraill heb ddatblygiad yn sensitif iawn ac y dylid cynnal eu cymeriad heb ddatblygiad newydd. Mae'r rhain yn cynnwys cefnennau a dyffrynnoedd cul coediog. Mae ACTau eraill lle y ceir potensial ar gyfer safleoedd newydd, ar raddfa fach fel arfer, neu ymestyn safleoedd presennol. Fodd bynnag, mae angen i'r rhain gael eu lleoli a'u dylunio'n ofalus iawn (yn unol â'r canllawiau) er mwyn lleihau effeithiau niweidiol i'r eithaf. Dylai safleoedd ar raddfa fawr a chanolig fod â chysylltiad da â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd ffisegol a pherthynas weledol. Mae hyn yn golygu y dylent fod o fewn neu gerllaw aneddiadau o faint pentref gwasanaeth a mwy.

8.3. Mae Rhan 1 yr astudiaeth yn canfod bod gan 10 ACT gapasiti cymedrol ar gyfer datblygiad, y mae rhai ohonynt yn cynnwys potensial ar gyfer safleoedd newydd a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer estyniadau. Ystyrir bod gan 16 ACT gapasiti cyfyngedig gyda chyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer safleoedd newydd neu estyniadau. Ystyrir bod tair ACT lle nad oes capasiti. Mae'n bwysig nodi nad yw'r canfyddiadau hyn yn golygu bod rhwydd hynt i ddatblygu yn yr ACTau lle y ceir cyfleoedd posibl. Dylai safleoedd mawr a chanolig fod â chysylltiad da ag aneddiadau o faint addas. Rhoddir canllawiau gofodol a chanllawiau eraill sy'n benodol i'r ACT hefyd, a dylid dilyn y rhain ynghyd â meini prawf canllaw cyffredinol. Mae'r rhain yn debygol o gyfyngu ar nifer y safleoedd addas, yn enwedig yn y tirweddau mwy agored ac yn arbennig yn lleoliad y Parc Cenedlaethol.

8.4. Achos perthnasol yw'r nifer o ACTau lle yr amlygwyd cyfleoedd y mae eu hardal gyffredinol yn cynnwys y cynghorau cymuned de-ddwyreiniol y nodwyd eu bod yn ardaloedd lle mae datblygiad wedi'i wahardd neu ei gyfyngu'n sylweddol yn y polisi presennol. Nid yw'r ymagwedd yn anghydnaws oherwydd asesir bod ardaloedd sy'n cyd-fynd yn fras â'r cynghorau cymuned hyn yn sensitif gyda photensial cyfyngedig ar gyfer mwy o ddatblygu. Mater i'r Cyngor yw ystyried cynnal y cyfyngiad yn yr ardaloedd cyngor cymuned hyn neu b'un ai dibynnu ar yr astudiaeth o gapasiti i osod y paramedrau ar gyfer datblygu.

8.5. Egwyddor allweddol yw os yw'r astudiaeth o'r farn bod math penodol o ddatblygiad ar raddfa benodol yn dderbyniol mewn ACT benodol, er enghraifft safle newydd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa fach, nid yw hyn yn golygu, os caiff ei weithredu, y byddai'n briodol neu'n dderbyniol cynyddu maint y safle neu ddwysáu defnydd ohono yn y dyfodol. Mae angen i'r potensial ar gyfer effeithiau cronnol gael ei ystyried fel nad yw safleoedd yn dod yn nodwedd allweddol o ardal. Bydd sensitifrwydd a chapasiti'r ACTau yn yr astudiaeth hon yn aros yn ddigyfnewid gan eu bod wedi'u seilio ar gymeriad sylfaenol yr ardaloedd.

8.6. Er bod yr asesiad yn Rhan 1 yn rhoi cyd-destun a fframwaith cyffredinol, mae'n bwysig bod safleoedd unigol yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol, gan ganiatáu hyblygrwydd a rhoi disgresiwn i swyddogion cynllunio sy'n gweithio yn unol â chyfres glir o feini prawf a ddarperir gan y canllawiau yn Atodiad B ac yn y papur hwn, yn ogystal â'r canllawiau ar ACTau penodol.

8.7. O ran lleoliad y Parc Cenedlaethol, mae angen gofal arbennig i gyflawni ei ddiben cyntaf, sef gwarchod a gwella harddwch naturiol y Parc. Bydd lleoliad y Parc yn cael ei ddiffinio gan agosrwydd, cymeriad a rhyngwelededd ardaloedd cyfagos ar sail achosion unigol. Yn ogystal, mae angen ystyried nodweddion arbennig y Parc sy'n arbennig o berthnasol i'w leoliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb
- Cyrraedd y parc
- Lle i anadlu
- Ysblander arfordirol
- Amrywiaeth y dirwedd

Archwilir a mynegir y nodweddion hyn yn asesiad cymeriad tirwedd PCAP, y dylid ei ystyried pan fydd safleoedd o fewn lleoliad y Parc.

8.8. Mae'r patrymau defnydd sy'n newid o unedau teithio i unedau sefydlog a chyflwyno mathau newydd o lety hamdden, gan gynnwys 'glampio', yn dangos bod cymeriad datblygiad o'r math hwn yn newid a'i fod yn debygol o barhau i newid. Nid oes modd rhagfynegi sut y bydd y sector a gwahanol fathau o lety'n esblygu na pha mor boblogaidd y byddant. Felly, dylai polisïau gael eu seilio ar egwyddorion craidd a gwahaniaethu rhwng graddfa a pharhauster cymharol datblygiad, h.y. y gwahaniaeth rhwng unedau sefydlog sy'n bresennol ar hyd y flwyddyn ac unedau teithio sy'n bresennol am ran o'r tymor. Er hynny, mae hefyd yn bwysig diffinio sut y bydd mathau newydd o ddatblygiad, fel podiau, yn cael eu trin wrth iddynt godi. Gellir ystyried y rhain yn gabanau gwyliau, carafannau sefydlog neu garafannau teithio yn dibynnu ar eu parhauster lleoliadol a'u strwythurau a'u gwasanaethau cysylltiedig. Mae **Atodiad C** yn esbonio'r diffiniad statudol o garafán.

8.9. Er gwaethaf yr angen am bolisïau diwygiedig, mae monitro a gorfodi'r polisi'n fater allweddol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod tirweddau sensitif y Sir yn cael eu gwarchod a bod mesurau a manylion sy'n amharu, fel triniaeth ffin wael, yn cael eu hosgoi.

**Amcanion trosfwaol**

8.10. Awgrymir yr amcanion trosfwaol, fel y bônt yn berthnasol i faterion tirwedd, morwedd a gweledol, fel a ganlyn:

- Rhoi ystyriaeth i'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â dibenion a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wrth ystyried ei leoliad.
- Dilyn polisi gofodol sy'n ategu PCAP yn seiliedig ar yr astudiaeth sensitifrwydd tirwedd a chapasiti ardaloedd cymeriad tirwedd.
- Gwella ansawdd llety ar yr un pryd â darparu ar gyfer amrywiaeth o gyllidebau.
- Ceisio gwella ansawdd amgylcheddol safleoedd a'u hintegreiddio i'r dirwedd wrth ystyried cynigion datblygu.

8.11. Y strategaeth a argymhellir yw gwella ansawdd safleoedd presennol a'u hintegreiddio i'r dirwedd a chaniatáu ar gyfer ymestyn safleoedd dan reolaeth mewn ardaloedd llai sensitif i ffwrdd oddi wrth yr arfordir, y Ddau Gleddau a'r Preseli, gan ganolbwyntio ar safleoedd tymhorol/teithio yn bennaf. Dylai polisïau adlewyrchu hyn ac ymdrin â mathau newydd o ddatblygiad hefyd.

**Ymagwedd Argymelledig**

8.12. Dylai geiriad unrhyw bolisi fod yn gyson â'r ymagwedd gyffredinol yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn ogystal, nid yw'r ymagwedd a amlinellir isod yn cynnwys ystyriaethau cynllunio manwl fel effeithiau traffig.

8.13. Dylai safleoedd ar raddfa fawr a chanolig fod â chysylltiad da â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd ffisegol a pherthynas weledol. Mae hyn yn golygu y dylent fod o fewn neu gerllaw aneddiadau o faint pentref gwasanaeth a mwy.

8.14. Byddai angen i ddatblygiad arfaethedig fodloni meini prawf y canllawiau lleoli a amlinellir yn **Atodiad B** yr adroddiad hwn. Gallai maint, natur a lleoliad safleoedd amrywio'n fawr, felly byddai angen i bob cais gael ei asesu yn ôl ei deilyngdod. Byddai angen i effeithiau cronnol datblygiadau gael eu hystyried hefyd, yn ogystal ag effeithiau niweidiol posibl ar awdurdodau cynllunio cyfagos.

8.15. Pan fydd datblygiad dwys eisoes yn bresennol yn agos i ffin y Parc Cenedlaethol, anogir gwella safleoedd trwy ddiwygio gosodiad carafannau sefydlog yn arbennig, gan eu hamnewid â lle amwynder gwyrdd, o ddewis, neu unedau teithio tymhorol mewn lleoliadau mwy amlwg o fewn y safleoedd. Byddai angen i gynigion fodloni meini prawf y canllawiau lliniaru a gwella a amlinellir yn **Atodiad B** yr adroddiad hwn.

8.16. Mae'r diffiniad o unedau teithio yn cynnwys carafannau teithio, pebyll, pebyll ôl-gerbydau a charafannau modur, cartrefi modur, faniau teithio a cherbydau gwersylla.

8.17. Dylai opsiynau 'glampio' meddal, fel iyrtau, tipis, pebyll saffari a phebyll cloch, gael eu trin fel unedau teithio neu ddatblygiad tymhorol ar yr amod eu bod yn cael eu symud ymaith o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a/neu am fwyafrif y flwyddyn a bod glaswellt yn cael ei adael i dyfu ar y safle. Lle y cynigir seilwaith sefydlog cysylltiedig, fel decin, ffensys neu baneli solar, gellir ystyried y pebyll yr un fath â datblygiad carafán sefydlog. Dylai pob cynnig gael ei ystyried ar sail ei rinweddau unigol.

8.18. Gellir ystyried opsiynau 'glampio' caled, fel podiau neu bebyll pren neu strwythurau caled eraill, yr un fath â charafannau teithio neu sefydlog neu gabanau gwyliau yn unol â'r diffiniad statudol o garafán yn **Atodiad C** yr adroddiad hwn. Mae hyn yn dibynnu ar b'un a ellir symud y strwythur ymaith o'r safle'n rhwydd mewn un darn, a oes ganddo sylfaen goncrit barhaol, a yw wedi'i gysylltu'n barhaol â chyflenwad trydanol neu wasanaethau eraill fel dŵr a gwaredu gwastraff, a oes ganddo strwythurau atodol fel decin, ffensys neu baneli solar yn gysylltiedig ag ef. Dylai'r penderfyniad ar ei statws gael ei wneud ar sail ei rinweddau unigol.

8.19. Dylai unedau teithio gael eu symud ymaith o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Dylai unedau teithio gael eu storio mewn adeiladau presennol addas, o ddewis, neu, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, mewn safleoedd anymwthiol sydd wedi'u sgrinio'n dda nad ydynt yn weladwy o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

8.20. Dylai'r polisi ar gyfer darparu cyfleusterau safle fod yn debyg i Bolisi 20 y CDLl presennol. Ni ddylai'r cyfleusterau niweidio'r dirwedd a byddant wedi'u lleoli, eu dylunio a'u lliniaru mewn modd sensitif sy'n gydnaws â chymeriad y dirwedd lle y

maent wedi'u lleoli. Defnyddir strwythurau ac adeiladau presennol sy'n gydnaws o ran cymeriad lle y bo'n bosibl. Bydd unrhyw fesurau lliniaru'r dirwedd yn defnyddio rhywogaethau brodorol priodol i gynyddu bioamrywiaeth i'r eithaf.

# ATODIADAU

# Atodiad A Rhestr termau a thalfyriadau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Termau sy'n gysylltiedig â thirwedd** | |
| **Amwynder (Plannu)** | plannu i ddarparu budd amgylcheddol fel plannu addurnol neu blannu i sgrinio. |
| **Dadansoddi** | y broses o rannu'r forwedd/y dirwedd yn rhannau cyfansawdd er mwyn gallu ei deall yn well. |
| **Coetir Hynafol** | tir a fu'n goediog yn barhaus ers 1600 OC. Mae'n adnodd ecolegol gwerthfawr iawn, sydd fel arfer yn cynnwys amrywiaeth eang o fflora a ffawna |
| **Amlwg** | gwrthrych sy'n weladwy yn y forwedd/y dirwedd. |
| **Ymagwedd** | y broses gam wrth gam a ddilynir i gynnal asesiad morwedd/tirwedd. |
| **Âr** | tir a ddefnyddir i dyfu cnydau heblaw am laswellt neu rywogaethau coediog. |
| **Agwedd** | yng Nghymru, mae agwedd yn elfen o'r wybodaeth LANDMAP sy'n cael ei chofnodi, ei threfnu a'i gwerthuso'n set ddata ofodol sy'n gyson yn genedlaethol. Rhennir y wybodaeth dirwedd yn bum agwedd - tirwedd ddaearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirwedd hanesyddol a thirwedd ddiwylliannol. |
| **Ardal agwedd** | ardaloedd a ddiffinnir ym mhob un o'r asesiadau agwedd LANDMAP sy'n annibynnol ar ei gilydd. |
| **Asesu** | term i ddisgrifio'r holl ffyrdd amrywiol o edrych ar, dadansoddi, gwerthuso a disgrifio'r forwedd/y dirwedd neu asesu effeithiau ar y forwedd/y dirwedd a derbynyddion gweledol. |
| **Bioamrywiaeth** | amrywiaeth bywyd, gan gynnwys yr holl wahanol gynefinoedd a rhywogaethau yn y byd. |
| **Capasiti** | faint o newid y gall ACT ymdopi ag ef heb newidiadau niweidiol i gymeriad neu nodweddion allweddol neu ganlyniadau amhriodol i bolisïau tirwedd yn yr ardal. |
| **Cymeriad** | gweler cymeriad morwedd neu gymeriad tirwedd. |
| **Priodwedd** | elfennau, rhinweddau a phriodoleddau sy'n gwneud cyfraniad penodol at gymeriad unigryw. * |
| **Nodweddu** | y broses o amlygu ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio eu cymeriad. * |
| **Dosbarthiad** | mae'n ymwneud â rhannu'r dirwedd yn ardaloedd o gymeriad cyffredin unigryw, adnabyddadwy a chyson a chasglu ardaloedd o gymeriad tebyg ynghyd mewn grŵp. * |
| **Cadwraeth** | diogelu adnoddau naturiol ac adeiledig a'r amgylchedd a'u rheoli'n ofalus. |
| **Ffen** | coetir mewn tir dyfrlawn. Mae rhywogaethau nodweddiadol yn cynnwys gwern, coed helyg a merhelyg. |
| **Clawdd/cloddiau** | clawdd neu dwmpath sy'n gysylltiedig â pherth ag wyneb cerrig mewn rhai ardaloedd. |
| **Cymhlethdod** | (yng nghyd-destun disgrifio nenlinell) pa mor amrywiol neu gymhleth yw'r nenlinell o hollol wastad gyda llystyfiant cyson ar un pen o'r raddfa i fynyddig gyda llystyfiant amrywiol ar y llall. |
| **Bondocio** | y dull traddodiadol o reoli coetir lle mae coed yn cael eu torri'n agos i'r tir i annog cynhyrchu blagur hir, syth y gellir eu cywain. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Cyson** | elfen neu batrwm cymharol ddigyfnewid ar draws ardal benodol o forwedd/tirwedd. |
| **Ased treftadaeth ddiwylliannol** | gweler ased treftadaeth |
| **Patrwm diwylliannol** | mynegiant o batrwm hanesyddol amgaead ac anheddu gwledig. |
| **Effeithiau cronnol** | naill ai newidiadau ychwanegol a achosir gan ddatblygiad arfaethedig ar y cyd â datblygiadau tebyg neu effaith gyfunol cyfres o ddatblygiadau, o'u hystyried gyda'i gilydd |
| **Gwahanolrwydd** | gweler ymdeimlad o le |
| **Amrywiaeth** | (o ran swyddogaeth ardal) gwahanol swyddogaethau amrywiol ardal. |
| **Trechaf** | prif nodwedd neu batrwm diffiniol. |
| **Effeithiau** | term a ddefnyddir wrth asesu effeithiau amgylcheddol lle mae effeithiau'n newidiadau sy'n deillio o weithredu datblygiad arfaethedig. |
| **Effeithiau, uniongyrchol** | lle mae datblygiad o fewn morwedd/tirwedd ac yn dileu elfen neu nodwedd yn ffisegol, e.e. creigiau, clogwyn, llystyfiant arfordirol. |
| **Effeithiau, anuniongyrchol** | effeithiau i ffwrdd oddi wrth y datblygiad, fel newid cymeriad canfyddedig, neu o ddatblygiad cysylltiedig, fel seilwaith trafnidiaeth. |
| **Elfennau** | elfennau unigol sy'n ffurfio'r dirwedd, fel coed a pherthi.* |
| **Nodweddion** | elfennau arbennig o amlwg neu lygad-dynnol, fel clystyrau o goed, tyrau eglwysi, neu nenlinellau coediog.* |
| **Terfyn Cae** | ymyl diffiniedig cae, boed hynny'n ffens, perth, clawdd, ffos neu wal. |
| **Maint Cae** | mawr - 2 Ha a mwy, canolig - tua 1.5 Ha, bach - llai nag 1 Ha. |
| **Daeareg** | astudiaeth tarddiad, strwythur, cyfansoddiad a hanes y Ddaear ynghyd â'r prosesau sydd wedi arwain at ei chyflwr presennol. |
| **Math o Dir** | mynegiant o'r pridd sy'n ffurfio amgylchedd a'i ddylanwad ar bennu patrwm llystyfiant a defnydd tir ar yr wyneb. |
| **Perth** | ffens o lwyni neu goed isel, byw neu farw, neu dywarch neu gerrig. Er bod gwrych yn rhes o lwyni sy'n ffurfio perth, yn fanwl gywir, fe'i cymerwyd i olygu'r un fath â pherth. |
| **Clawdd â pherth** | clawdd neu dwmpath sy'n gysylltiedig â pherth |
| **Ased treftadaeth** | adeilad, heneb, safle, lle, ardal neu dirwedd yr amlygwyd yn gadarnhaol bod ganddo/ganddi rywfaint o arwyddocâd hanesyddol sy'n deilwng o'i ystyried mewn penderfyniadau cynllunio. Mae asedau treftadaeth dynodedig yn cynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, safleoedd llongddrylliadau gwarchodedig, meysydd brwydrau, adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi cofrestredig. |
| **Garddwriaeth** | math dwys o gnydio, fel llysiau neu ffrwythau. |
| **Dylanwad** | fe'i defnyddir yn rhan o'r term cyffredinol, fel mewn Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol neu Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, i helpu i ddisgrifio'r broses o asesu effeithiau arwyddocaol posibl - gweler effeithiau. |
| **Wedi'i wella (o ran priddoedd neu dir pori)** | ychwanegu gwrtaith ac, yn achos tir pori, ailhadu gyda rhywogaeth laswellt fwy cynhyrchiol. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Cynhenid** | diffiniad geiriadur - 'bodoli fel rhan anwahanadwy'. Yng nghyd-destun sensitifrwydd, mae'n golygu sensitifrwydd y parth morwedd/tirwedd ei hun gyda'i holl elfennau cyfansawdd a nodweddion yn hytrach na'i berthynas â pharthau cyfagos. |
| **Cyfanrwydd** | heb ei ddifetha gan ddatblygiad mawr, gweledol ymwthiol neu anghytûn arall. |
| **Nodweddion allweddol** | y cyfuniadau hynny o elfennau a nodweddion sy'n arbennig o bwysig i gymeriad presennol y dirwedd ac sy'n helpu i roi ei hymdeimlad unigryw o le i ardal. |
| **Gorchudd tir** | cyfuniadau o elfennau naturiol ac o wneuthuriad dyn, gan gynnwys llystyfiant, sy'n gorchuddio arwyneb y tir. |
| **Tirffurf** | cyfuniadau o lethr a chodiad sy'n cyfuno i roi siâp a ffurf i'r tir combinations of slope and elevation which combine to give shape andform to the land |
| **LANDMAP** | *LANDMAP* yw'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) genedlaethol ar gyfer Cymru, a luniwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ar gyfer ystyried y dirwedd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n set ddata sy'n gyson yn genedlaethol wedi'i rhannu'n 5 agwedd - tirweddau daearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirweddau hanesyddol a thirweddau diwylliannol. |
| **Tirwedd** | ardal, fel y'i canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn deillio o weithredu a rhyngweithio ffactorau naturiol a/neu ddynol. |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA)** | methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith datblygiad neu newid defnydd arall ar amwynder gweledol a'r dirwedd. Mae'n cynnwys dadansoddi'r effeithiau yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw adfer neu ôl-ddefnyddiau. (GLVIA 2002) |
| **Cymeriad Tirwedd** | patrwm unigryw, adnabyddadwy a chyson o elfennau, nodweddion a phriodweddau yn y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu'n waeth. |
| **Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT)** | ardaloedd unigryw unigol sy'n ardaloedd daearyddol ar wahân o gymeriad tirwedd penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth unigol ei hun. Mae'r ardaloedd hyn yng Nghymru yn deillio'n bennaf o agweddau LANDMAP. |
| **Adnodd Tirwedd** | stoc gyffredinol y dirwedd a'i rhannau cyfansawdd. (Ystyrir y dirwedd yn adnodd mesuradwy y mae pen draw iddo fel unrhyw fath arall, e.e. mwynau, tir, dŵr). |
| **Gwerth tirwedd** | y gwerth neu'r pwysigrwydd cymharol a briodolir i wahanol dirweddau ac agweddau LANDMAP. Gallai tirwedd gael ei gwerthfawrogi gan wahanol gymunedau buddiant am nifer o wahanol resymau. Gall y rhain gynnwys harddwch golygfaol, llonyddwch, gwylltineb, cysylltiadau diwylliannol arbennig, presenoldeb buddiannau cadwraeth, prinder neu fodolaeth barn gyffredinol ynglŷn â phwysigrwydd, yn genedlaethol neu'n lleol. Bydd rhai ardaloedd wedi'u dynodi i fynegi eu gwerth. Priodolir gwerth i bob agwedd LANDMAP hefyd gan ddefnyddio amrywiaeth o feini prawf. Gellir cael syniad o ba mor werthfawr yw ardal hefyd trwy arsylwi sut y caiff ei defnyddio, e.e. llwybr poblogaidd i olygfan ar ben bryn. |
| **Maint effaith** | graddau newid |
| **Tir Amaeth Cymysg** | cyfuniad o dir amaeth âr a bugeiliol |
| **Mosaic** | cymysgedd o leiniau mân o wahanol orchuddion tir, fel coetir, tir pori a rhos. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Gwrthrychol** | dull asesu lle nad yw teimladau a safbwyntiau personol yn dylanwadu ar nodweddu neu ddyfarniadau. |
| **Brigiad** | yr ardal lle mae craig benodol yn ymddangos ar yr wyneb. |
| **Bugeiliol** | tir â glaswellt sydd naill ai'n cael ei bori gan anifeiliaid neu ar gyfer torri. |
| **Ffisiograffeg** | mynegiant o siâp a strwythur wyneb y tir fel y'i dylanwadir gan natur y ddaeareg sylfaenol ac effaith prosesau geomorffolegol. |
| **Polygon** | ardal ar wahân wedi'i digideiddio mewn system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). |
| **Amlwg** | nodwedd neu batrwm amlwg yn y dirwedd. |
| **Amddiffyn** | cadw rhag niwed. |
| **Priodoleddau** | priodweddau esthetig (patrymau gweladwy gwrthrychol) neu ganfyddiadol (ymatebion goddrychol gan yr aseswr morwedd/tirwedd) y forwedd/y dirwedd, fel y rhai hynny sy'n ymwneud â graddfa neu lonyddwch, yn y drefn honno. |
| **Derbynnydd, gweledol** | pobl mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd sy'n gallu profi golygfa o fewn ardal ac y gallai newid neu ddatblygiad effeithio arnynt. Gall derbynyddion gynnwys defnyddwyr llwybrau troed cyhoeddus, tir mynediad agored, ffyrdd, rheilffyrdd neu lwybrau beicio neu breswylwyr trefol neu wledig. |
| **Derbynnydd, morwedd/tirwedd** | ardaloedd cymeriad, dynodiadau, elfennau neu nodweddion morwedd/tirwedd y gallai datblygiad effeithio arnynt |
| **Pellenigrwydd** | arwahanrwydd ffisegol, i ffwrdd oddi wrth bresenoldeb pobl, seilwaith (ffyrdd a rheilffyrdd, llwybrau fferïau a morgludiant) ac aneddiadau. |
| **Adnodd** | gweler adnodd morwedd/tirwedd. |
| **Adfer** | atgyweirio neu adnewyddu. |
| **Glannau afon** | llystyfiant sy'n gysylltiedig â chorff dŵr, sef afon neu nant fel arfer. |
| **Ansawdd golygfaol** | morwedd/tirwedd â golygfeydd darluniadol sy'n cynnwys elfennau esthetig ddymunol yn eu cyfansoddiad. |
| **Llystyfiant lled-naturiol** | unrhyw fath o lystyfiant y mae gweithgareddau dynol wedi dylanwadu arno, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r term yn cael ei gymhwyso fel arfer i ardaloedd sy'n dychwelyd i natur o ganlyniad i ddiffyg rheolaeth. |
| **Ymdeimlad o Le** | cymeriad lle sy'n ei gwneud yn adnabyddadwy neu'n unigryw, h.y. yn wahanol i leoedd eraill. Gall rhai nodweddion neu elfennau ysgogi ymdeimlad cryf o le, e.e. ynysoedd, caerau, pensaernïaeth werinol. |
| **Synhwyraidd** | yr hyn a dderbynnir trwy'r synhwyrau, h.y. golwg, clyw, arogl, cyffyrddiad. |
| **Lleoliad, ased treftadaeth** | yr amgylchedd y profir yr ased ynddo. Nid yw ei hyd a'i led yn sefydlog ac fe allai newid wrth i'r ased a'i amgylchedd esblygu. Gallai elfennau o leoliad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol at ased, gallent effeithio ar y gallu i werthfawrogi'r arwyddocâd hwnnw neu fe allent fod yn niwtral. |
| **Anheddiad** | yr holl anheddau/trigfannau, boed hynny'n unigol neu wedi'u clystyru mewn dinasoedd, trefi a phentrefi. |
| **Patrwm Anheddu** | y prif batrwm anheddu mewn ardal. |
| **Sensitifrwydd** | i ba raddau y gall ACT ymdopi â newid o fath penodol ac ar raddfa benodol heb effeithiau niweidiol ar ei chymeriad. |
| **Arwyddocâd** | wrth asesu effeithiau amgylcheddol - pwysigrwydd effaith. Mae angen i effaith arwyddocaol gael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Goddrychol** | dull asesu lle y defnyddir safbwyntiau ac ymateb personol yn y broses nodweddu. |
| **Topograffeg** | term a ddefnyddir i ddisgrifio nodweddion daearegol arwyneb y Ddaear, e.e. mynyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd, gwastadeddau. |
| **Undod** | cysondeb patrwm dros ardal eang, h.y. ailadrodd elfennau tebyg, cydbwysedd a chyfrannedd, graddfa ac amgaead. |
| **Gwerth** | gweler gwerth tirwedd |
| **Gwerinol** | wedi'i adeiladu yn yr arddull leol, o ddeunyddiau lleol. |
| **Effeithiau Gweledol** | yr effeithiau gweledol tebygol y byddai pobl yn eu profi o ganlyniad i gynnig datblygu neu newid i reoli tir. |
| **Sensitifrwydd gweledol** | mae sensitifrwydd gweledol neu 'weledEDD' yn mesur i ba raddau y mae newid yn debygol o achosi effaith weledol o fewn morwedd/tirwedd benodol. |
| **Termau sy'n gysylltiedig â morwedd** | |
| **Cymeriad** | gweler cymeriad morwedd neu gymeriad tirwedd. |
| **Priodweddau** | elfennau, rhinweddau a phriodoleddau sy'n gwneud cyfraniad penodol at gymeriad unigryw. * |
| **Nodweddu** | y broses o amlygu ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio eu cymeriad. * |
| **Dosbarthiad** | mae'n ymwneud â rhannu'r forwedd neu'r dirwedd yn ardaloedd o gymeriad cyffredin unigryw, adnabyddadwy a chyson a chasglu ardaloedd o gymeriad tebyg ynghyd mewn grŵp. * |
| **Elfennau** | rhannau cyfansawdd unigol o'r forwedd fel traethau, clogwyni, riffiau tanddwr, morgloddiau, grwynau a brigiadau creigiog. |
| **Nodweddion** | elfennau arbennig o amlwg neu lygad-dynnol, fel goleudai, staciau o greigiau a chlogwyni arfordirol. |
| **Nodweddion allweddol** | y cyfuniadau hynny o elfennau sy'n helpu i roi ei hymdeimlad unigryw o le i ardal. Gallant fod yn nodweddion 'cadarnhaol' mewn llawer o achosion, ond fe allant hefyd fod yn nodweddion 'negyddol' mewn rhai achosion sy'n parhau i fod yn bwysig i gymeriad presennol y forwedd. * |
| **Terfynau tua'r tir (mewn perthynas ag asesiad cymeriad morwedd)** | y pellter y bydd yr asesiad cymeriad morwedd yn ymestyn ar y tir ac i'r mewndir. Mae ystyriaethau o'r fath yn berthnasol i'r tir mawr, penrhynion ac ynysoedd, ni waeth am eu pellter ar y môr. Mae'r hyd a'r lled yn dibynnu ar ddiben a/neu gwmpas yr asesiad sy'n cael ei gynnal. |
| **Canfyddiad** | mae canfyddiad yn cyfuno'r synhwyraidd (yr hyn a dderbyniwn trwy ein synhwyrau) â'r gwybyddol (gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd o lawer o ffynonellau a phrofiadau). |
| **Morwedd** | ardal o fôr, morlin a thir, fel y'i canfyddir gan bobl, y mae ei chymeriad yn deillio o weithredoedd a rhyngweithiadau'r tir â'r môr, o ganlyniad i ffactorau naturiol a/neu ddynol. |
| **Cymeriad morwedd** | patrwm unigryw ac adnabyddadwy o elfennau yn y forwedd sy'n gwneud un forwedd yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu'n waeth. |
| **Asesiad cymeriad morwedd (ACM)** | ACM yw'r broses o amlygu a disgrifio amrywiad yng nghymeriad y forwedd, a defnyddio'r wybodaeth hon i helpu i reoli newid yn y forwedd. Mae'n ceisio amlygu ac esbonio'r cyfuniad unigryw o elfennau a nodweddion sy'n gwneud morwedd yn unigryw. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Ardaloedd cymeriad morwedd** | ardaloedd unigryw unigol sy'n ardaloedd daearyddol ar wahân o gymeriad morwedd penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth unigol ei hun. Gallai'r ardaloedd hyn gael eu ffurfio o nifer o fathau o forweddau. |
| **Mathau o gymeriad morwedd** | dyma fathau unigryw o forwedd sy'n gymharol unffurf eu cymeriad. Maen nhw'n generig eu natur yn yr ystyr y gallent ddigwydd mewn lleoliadau gwahanol. Ond, lle bynnag y byddant yn digwydd, maen nhw'n rhannu cyfuniadau tebyg, at ei gilydd, o fathymetreg, daeareg gwely'r môr a nodweddion hinsawdd tonnau. |
| **Canllawiau morwedd** | camau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau bod cymeriad morwedd unigryw yn cael ei gynnal, ei wella neu, os yw'n briodol, ei newid trwy greu cymeriad newydd. |
| **Ansawdd morwedd** | cyflwr ffisegol y forwedd. Mae'n cynnwys i ba raddau y mae cymeriad nodweddiadol yn cael ei gynrychioli mewn ardaloedd unigol, y cyfeirir ato weithiau fel cryfder cymeriad, cyfanrwydd y forwedd o safbwyntiau gweledol, swyddogaethol ac ecolegol, a chyflwr elfennau unigol o'r forwedd. |
| **Sensitifrwydd morwedd** | gallu'r forwedd i ymateb i newid ac ymdopi ag ef. Mae'n adlewyrchu cymeriad y forwedd, natur newid yn y ffordd y mae pobl yn canfod ac yn profi'r ddau. |
| **Strategaeth forwedd** | amcanion a gweledigaeth gyffredinol ynglŷn â sut dylai'r forwedd fod yn y dyfodol, a'r hyn yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar gyfer math penodol o gymeriad morwedd neu ardal gyffredinol. |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Forwedd a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA)** | methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith datblygiad neu newid defnydd arall ar amwynder morwedd, tirwedd a gweledol. Mae'n cynnwys dadansoddi'r effeithiau yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw adfer neu ôl-ddefnyddiau. |

*Natural England, Ymagwedd at asesu cymeriad tirwedd, (2014).

## Talfyriadau a ddefnyddir yn y testun

AOD Uwchben Datwm Ordnans

AHNE Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

EIA Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

GLVIA Canllawiau ar gyfer asesu'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol

GIS System gwybodaeth ddaearyddol

Km cilometrau

ACT Asesiad cymeriad tirwedd *neu* ardal cymeriad tirwedd

CDLl Cynllun Datblygu Lleol

LVIA Asesiad o'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol

LW distyll

m metrau

CNC Cyfoeth Naturiol Cymru

CSP Cyngor Sir Penfro

PCAP Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

APCAP Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

DACA Darpar Ardal Cadwraeth Arbennig

RHL Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig (Tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol neu arbennig yng Nghymru)

SAM Heneb Gofrestredig

ACM Asesiad cymeriad morwedd / ardal cymeriad morwedd

SCT Math o gymeriad morwedd

AGA Ardal Gwarchodaeth Arbennig

SPG Canllawiau cynllunio atodol

SoDdGA Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

SNH Treftadaeth Naturiol yr Alban

SLVIA Asesiad o’r effaith ar y forwedd a’r dirwedd a’r effaith weledol

# Atodiad B Canllawiau

Sylwer: Mae'r canllawiau lleoli'n berthnasol i ardaloedd cymeriad tirwedd lle yr amlygwyd potensial ar gyfer safleoedd yn unig, a dylid eu darllen ar y cyd â'r argymhellion a'r canllawiau ar gyfer pob ardal, y rhoddir blaenoriaeth iddynt.

| Canllawiau lleoli |
| --- |
| Wrth leoli unedau, dylid osgoi'r canlynol:<br>1. Ardaloedd tawel, heb eu datblygu<br>2. Ymyl yr arfordir<br>3. Llethrau arfordirol sy'n rhyngweladwy â'r môr.<br>4. Safleoedd amlwg.<br>5. Nenlinellau, yn enwedig rhai sy'n weladwy o ymyl yr arfordir.<br>6. Cau bylchau rhwng aneddiadau a datblygiadau eraill.<br>7. Gwarchodfeydd neu safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol.<br>8. Tir pori heb ei wella a chynefinoedd lled-naturiol, gan gynnwys rhos a choetir hynafol.<br>9. Lleoli unedau sefydlog o fewn neu yn lleoliad Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtiliau.<br>10. Lleoli unedau sefydlog mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig lle y bo'n bosibl.<br>11. Lleoli mewn ardaloedd lle y ceir golygfeydd allweddol, fel tua'r môr ac oddi yno, o'r Llwybr Arfordirol a llwybrau pellter hir eraill ac o ardaloedd sensitif o dir mynediad agored dynodedig.<br>12. Lleoli mewn tirweddau neu forweddau unigryw a'r rhai hynny lle y ceir ymdeimlad cryf o le.<br>Os yw safleoedd yn bodloni'r meini prawf uchod, dylid lleoli fel a ganlyn:<br>1. Lleoli mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurf, coed neu berthi aeddfed/wedi gordyfu o fewn a gerllaw safle.<br>2. Lleoli o fewn terfynau caeau, gan beidio â lledaenu i mewn i gaeau cyfagos.<br>3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod bod amgaead.<br>4. Lleoli unedau'n agos i ymylon elfennau amgaeol fel terfynau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu fannau.<br>5. Cysylltu â chyfadeiladau ffermydd os oes modd, yn enwedig safleoedd bach.<br>6. Lleoli ar dir pori wedi'i wella, tir âr neu dir llwyd.<br>7. Osgoi tir pori heb ei wella a chynefinoedd lled-naturiol, gan gynnwys rhos a choetir hynafol.<br>8. Os bwriedir lleoli mewn coetir, dylid sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser, e.e. adfywio/ailblannu yn raddol.<br>9. Lleoli gerllaw datblygiad modern. |

| **Canllawiau lliniaru a gwella** |
|---|
| 1. Dylai'r holl welliannau tirwedd fod yn gydnaws â'r ACT y maent wedi'u lleoli ynddi. Er enghraifft, nid yw coed a pherthi uchel yn briodol mewn tirweddau agored sydd â chloddiau â pherthi isel, nac mewn gweundir agored.<br><br>2. Dylid lleihau dwysedd datblygiad carafannau sefydlog gan greu lle gwyrdd trwy blannu coed brodorol rhwng carafannau, yn enwedig lle mae carafannau neu gabanau gwyliau'n 'pentyrru' ar lethrau.<br><br>3. Dylid osgoi lleoli carafannau sefydlog yn agos iawn i ffiniau fel y gellir plannu i helpu i liniaru effeithiau.<br><br>4. Mewn egwyddor, dylid cyfyngu carafannau sefydlog a theithio ac unedau 'caled' eraill i ymyl caeau, a phebyll i ymyl caeau mewn lleoliadau amlwg.<br><br>5. Dylid ystyried gosodiad llai syth ar gyfer unedau sefydlog gyda mannau a ffyrdd mynediad troellog.<br><br>6. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg, dylid ystyried symud unedau sefydlog ymaith a defnyddio'r lle ar gyfer amwynder, e.e. lle agored ar gyfer hamdden, chwarae, mynd â chŵn am dro.<br><br>7. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg, dylid ystyried symud unedau sefydlog ymaith a defnyddio'r lle ar gyfer unedau sy'n cael llai o effaith, sef pebyll, iyrtau neu bebyll saffari tymhorol, o ddewis.<br><br>8. Dylid newid lliw carafannau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, i leihau'r effaith weledol. Dylid osgoi toeon gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda gan blannu yn y canol.<br><br>9. Dylid cyfyngu ar faint deciau a rheiliau pren cysylltiedig ac osgoi deciau llydan ar dir llethrog er mwyn osgoi ardaloedd diolwg oddi tanynt.<br><br>10. Dylid ystyried plannu llwyni brodorol i feddalu golwg galed deciau.<br><br>11. Dylid cynnal neu newid goleuadau i rai lefel isel sy'n wynebu tuag i lawr yn y nifer leiaf posibl o ardaloedd, lle y bo'r angen.<br><br>12. Dylid gwella golwg cyfleusterau safleoedd, e.e. i edrych fel cyfadeilad fferm wledig, a lliniaru effeithiau trwy blannu, lle y bo'n briodol.<br><br>13. Dylid cynnal, adfer a gwella'r patrwm terfyn cae, gan gynnwys cloddiau â pherthi traddodiadol, gwrychoedd a choed, i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd o safleoedd.<br><br>14. Dylid plannu mwy o goed a llwyni brodorol o fewn safleoedd i rannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.<br><br>15. Dylid amnewid ffensys â pherthi neu gloddiau â pherthi brodorol.<br><br>16. Dylid amnewid perthi conwydd â pherthi brodorol.<br><br>17. Dylid amnewid coed conwydd â choed collddail brodorol.<br><br>18. Dylid gwarchod coetir a blannwyd o fewn a gerllaw safleoedd i gynnal a gwella sgrinio.<br><br>19. Dylid gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd er mwyn gwella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt, e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a therfynau caeau ac ati.<br><br>20. Dylid gwella mynedfeydd safleoedd fel bod ganddynt gymeriad gwledig, gan ddefnyddio manylion, deunyddiau a phlannu gwledig sy'n adlewyrchu'r arddull werinol, gan osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau disglair, lliwiau llachar ac ardaloedd rhy fawr o lawr caled.<br><br>21. Dylid gwella mynediad i gerddwyr allan o safleoedd i fannau o ddiddordeb ar yr un pryd â defnyddio camfeydd a giatiau â manylion cynnil a phriodol. |

# Atodiad C Diffiniad o Garafán

## Diffiniadau statudol o garafán

Diffinnir y term 'carafán' yn Neddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 fel:

*'unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo y gellir ei symud o un lle i'r llall (boed hynny trwy gael ei dynnu, neu drwy gael ei gludo ar gerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd felly…'*

Ychwanegwyd at y diffiniad hwn gan Adran 13 Deddf Safleoedd Carafannau 1968 ac wedi hynny gan Orchymyn Deddf Safleoedd Carafannau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007 i gynnwys diffiniad penodol ar gyfer yr hyn a elwir yn garafán uned ddwbl, a ddylai:

*(a) Gynnwys dim mwy na dwy ran a adeiladwyd ar wahân ac a ddyluniwyd i gael eu cydosod ar safle trwy gyfrwng bolltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill a;*
*(b) Phan fydd wedi'i dadgydosod, gellir ei symud yn ffisegol ar y ffyrdd o un lle i'r llall (boed hynny trwy gael ei thynnu, neu drwy gael ei chludo ar gerbyd modur neu ôl-gerbyd)*
*Ar yr amod, pan fydd wedi'i chydosod:*
*(a) Nad yw ei hyd (heb gynnwys unrhyw far tynnu) yn fwy na 65.616 o droedfeddi (20m);*
*(b) Nad yw ei lled yn fwy na 22.309 o droedfeddi (6.8m);*
*(c) Nad yw uchder cyffredinol y llety byw (a fesurir yn fewnol o'r llawr i lefel isaf y nenfwd ar y lefel uchaf) yn fwy na 10.006 o droedfeddi (3.05m)*

Mae carafán deithio'n fath o garafán sy'n gyfreithlon ar gyfer y ffordd ac y gellir ei thynnu y tu ôl i gerbyd ar y brifford gyhoeddus.

Mae carafán sefydlog yn derm a ddefnyddir ar gyfer carafannau sy'n aros ar safle ar hyd y flwyddyn ond sy'n symudol ac yn 'garafannau' o fewn y diffiniad er hynny. Mae gan y rhain siasi ac olwynion ac fe'u lleolir ar lain ag arwyneb. Fel arfer, mae gan bob carafán gysylltiadau gwaredu gwastraff, draenio, dŵr a thrydan ar y llain. Mae gan rai ddecin a ffensys cysylltiedig. Gellir cludo'r unedau hyn oddi ar y safle ar ddiwedd eu hoes.